
GWEITHREDU BRYS
AMNEST RHYNGWLADOL

# Canllaw i Gymryd Rhan

# Gweithredu *Brys*




AMNEST RHYNGWLADOL
Y DEYRNAS GYFUNOL

# Cynnwys


| | Tudalen(nau) |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Sut mae'n gweithio? | 3 |
| Pam or effeithiol ydyw? | 4 |
| O ble y daw'r wybodaeth? | 5 |
| Derbyn Gweithredu Brys<br>Cynllun Rhoddwyr Ernes | 6 |
| Pam or aml mae angen apelio? | 7 |
| Anfon Apêl | 8 |
| Cyfarch swyddogion | 9 |
| Anfon... Post awyr | 10 |
| Anfon... Telecs<br>Anfon... Ffacs | 11 |
| Anfon... Telegram | 12 |
| Enghreifftiau o delegramau | 13 |
| Enghreifftiau o apeliadau | 14 |
| Post electronig | 15 |
| Taflen Gweithredu Brys | 16-17 |
| Gweithredu Brys Ieuenctid | 18-21 |
| Cwestiynau ac Atebion | 22-25 |
| Pethau i'w cofio | 26 |
| Ffurflenni gwyliau/absenoldeb | 27 |
| Ffurflenni newid cyfeiriad | 29 |
| Ffurflenni newid aelodaeth | 31 |



I gysylltu â'r tîm Gweithredu Brys:

Y Tîm Gweithredu Brys
Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol
99-119 Rosebery Avenue
Llundain EC1R 4RE

Ffôn: 0171 814 6266/6267
Ffacs: 0171 833 1510
E-bost: ua@amnesty.org.uk

# Cyflwyniad

**Anfonwyd y taflenni Gweithredu Brys cyntaf ar ran yr Athro Luiz Rossi ar 19 Mawrth 1973. Roedd bygythiad y byddai'n cael ei boenydio dan y drefn filwrol yn Brasil ar y pryd.**

**Cafodd yr Athro Rossi ei gipio o'i gartref ffin nos ar 15 Chwefror 1973 ynghyd â dyn arall a oedd yno ar y pryd. Daeth heddlu milwrol arfog i amgylchynu'r tŷ gyda'u harfau, gan weithio ar y cyd ag aelodau o'r heddlu lleol, heddlu'r fyddin a'r heddlu gwleidyddol (DOPS) o São Paulo. Aeth y lluoedd i'r tŷ, chwilio ymhobman a mynd â llyfrau a dogfennau gyda nhw. Cafodd yr Athro Rossi a'i ymwelydd eu restio.**

**Ni chafodd carchariad yr Athro Rossi ei gydnabod tan 3 Mawrth 1973. Ar ôl cysylltu â llawer o sefydliadau rhyngwladol a chyrff eraill am gefnogaeth i'w ymgyrch ar ran yr Athro Rossi, anfonodd Amnest Rhyngwladol y daflen Gweithredu Brys gyntaf ar 19 Mawrth 1973.**

**Mewn ymateb i'r daflen Gweithredu Brys a lansiwyd ar ei ran a'r ffaith iddo**

Ym 1972, yr oedd poenydio neu arteithio yn broblem fawr yn Brasil, yn enwedig yn y dyddiau cyntaf ar ôl i bobl gael eu carcharu. Ym mhencadlys Amnest Rhyngwladol yn Llundain datblygodd y syniad o anfon taflenni Gweithredu Brys fel ffordd o ymateb yn gyflym i honiadau o boenydio yn y wlad honno.

Anfonwyd y taflenni Gweithredu Brys cyntaf ar 19 Mawrth 1973 wedi i'r Athro Luiz Rossi gael ei restio (mae rhagor o fanylion ar ymyl y tudalennau hyn).

**Ym mis Chwefror 1996, cyfarfu Rebecca Hess, Cydlynydd y cynllun Gweithredu Brys yn Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol, â'r Athro Rossi pan ddaeth i Lundain**



Ym 1974, mabwysiadwyd y cynllun Gweithredu Brys yn un o dechnegau ymgyrchu Amnest Rhyngwladol. Yn y flwyddyn honno, anfonodd Amnest Rhyngwladol un ar ddeg o daflenni Gweithredu Brys ar ran pobl oedd yn cael eu poenydio yn Mexico, Chile, Brasil, Uruguay a Sbaen.

Ers hynny, mae nifer y taflenni Gweithredu Brys a anfonir bob blwyddyn wedi cynyddu'n raddol. Ym 1995, anfonodd Amnest Rhyngwladol 452 taflen Gweithredu Brys ar ran pobl mewn 94 o wledydd a oedd mewn perygl o gael eu poenydio, "diflannu" neu farwolaeth, neu a gafodd eu restio'n fympwyol, eu cadw heb gyhuddiad neu dreial, mewn amodau difrifol yn y carchar, neu heb ofal meddygol.

**Brys…**

Elfen bwysicaf y rhwydwaith Gweithredu Brys yw pa mor gyflym y mae'n gweithio. Mewn rhai achosion, mae llywodraeth yn derbyn apêl o fewn 24 awr i rywun gael ei restio – sef y cyfnod tyngedfennol pan mae'r arteithio fwyaf tebygol o ddigwydd. Mewn achosion eraill, mae'r apeliadau yn cyrraedd pen y daith ychydig ddiwrnodau yn unig yn ddiweddarach. Pan fydd Amnest Rhyngwladol yn derbyn gwybodaeth am ddienyddiad sydd i ddigwydd o fewn ychydig ddiwrnodau, mae'n bosibl mai'r rhwydwaith Gweithredu Brys yw'r unig ffordd o gyfleu pryderon Amnest Rhyngwladol i'r awdurdodau llywodraeth a'r unig ffordd o sicrhau apeliadau cyflym, rhyngwladol am drugaredd.

**Ymateb byd-eang…**

Mae llwyddiant Gweithredu Brys yn dibynnu ar elfen arall, sef eu bod mor eang; rhagor nag unrhyw dechneg arall gan Amnest Rhyngwladol, gall y rhwydwaith Gweithredu Brys warantu y bydd yr ymateb i'r alwad am weithredu yn wirioneddol fyd-eang. Erbyn hyn y mae rhwydweithiau Gweithredu Brys mewn dros 80 o wledydd, mor amrywiol ag Uruguay a Nigeria, Gwlad Pwyl a De Korea.

Felly bydd gwledydd ledled y byd, lle mae troseddu yn erbyn iawnderau dynol, yn derbyn cannoedd o delecsau, ffacsiau a thelegramau, a miloedd o lythyrau post awyr oddi wrth aelodau a chefnogwyr Amnest Rhyngwladol. Mae Penaethiaid Gwladwriaethau, gweinidogion a phenaethiaid yr heddlu yng Ngwlad Thai, Kenya, Iraq, Twrci a Llywodraethwyr Taleithiau yn Unol Daleithiau America oll yn eu tro wedi dod dan bwysau mawr yn rhyngwladol.

# Sut mae'n gweithio?

Pan fydd Amnest Rhyngwladol yn derbyn newyddion bod rhywun mewn perygl, bydd y tîm ymchwil priodol yn y Swyddfa Ryngwladol Ganolog yn paratoi taflen Gweithredu Brys. Mae'r daflen yn cynnwys manylion y carcharor(ion) ac unrhyw wybodaeth gefndir, a bydd yn argymell y dylid anfon ffacsiau, telecsau, telegramau, a llythyrau brys neu bost awyr at awdurdodau'r wlad lle mae'r carcharor yn cael ei ddal yn gaeth. Mae'n rhestru cyrff eraill y dylid anfon copïau o'r apeliadau atynt, gan gynnwys y Llysgenhadaeth berthnasol ym Mhrydain.

Mae Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol yn derbyn taflenni Gweithredu Brys bob dydd oddi wrth y Swyddfa Ryngwladol Ganolog. Yna mae'r rhain yn cael eu hanfon at nifer penodol o unigolion. Wedi derbyn y taflenni hyn, mae'r unigolion yn anfon apeliadau at y swyddogion llywodraeth a enwir, gan ddilyn y cyfarwyddiadau a roddir yn ofalus.

Yn y Deyrnas Gyfunol, mae dros 9,000 o gefnogwyr yn cymryd rhan yn y Cynllun Gweithredu Brys trwy swyddfa Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol.

Cofiwch, wrth i chi ac eraill ym Mhrydain anfon llythyrau a thelegramau ar ran carcharor, bydd cyfeillion a chefnogwyr Amnest Rhyngwladol ledled y byd hefyd yn gweithredu ar ran yr un carcharor, yr un pryd â chi. Heddiw fe geir rhwydweithiau Gweithredu Brys mewn tua 80 o wledydd. Mae grwpiau ac Adrannau Amnest Rhyngwladol yn America Ladin – yn Chile, Venezuela, Periw, Ariannin, Brasil, Mexico, Colombia, Costa Rica ac Ecuador – wedi sefydlu rhwydweithiau Gweithredu Brys. Yn Asia, anfonir apeliadau o India a Nepal ac oddi wrth wirfoddolwyr eraill yn Bangladesh, Hong Kong, Gwlad Thai, De Korea a'r Pilipinas. O Affrica, daw apeliadau o Ghana, Nigeria, Sierra Leone, Tanzania, Sénégal, Cote D'Ivoire a Tunisia.

Gallwch ddisgwyl felly y bydd awdurdodau'r wlad dan sylw yn derbyn cannoedd o delegramau a thelecsau o fewn dyddiau a miloedd o lythyrau o fewn wythnosau – a'r cyfan yn ymwneud â'r un carcharor! Felly mae'r rhwydwaith Gweithredu Brys yn rym amlwg a phwerus iawn. Amcangyfrifir y bydd pob taflen Gweithredu Brys yn creu rhwng 3,000 a 5,000 o apeliadau oddi wrth bobl ledled y byd.



"Nid ei ddyddiau yn y carchar, ond faint o lythyrau gawsom ni'n gofyn am ei ryddhau."

**gael ei fabwysiadu'n garcharor cydwybod, derbyniodd llawer o grwpiau ac aelodau unigol yn Amnest Rhyngwladol lythyrau oddi wrth wraig yr Athro Rossi. Dywedai iddi gael caniatâd i weld yr Athro Rossi, a'i fod mewn cyflwr da. Yn ddiweddarach clywodd Amnest Rhyngwladol o Brasil fod y llythyrau hyn wedi'u hysgrifennu dan bwysau ym mhencadlys yr Adran Trefn Gyhoeddus a Diogelwch. Dim ond ar ôl i'r llythyrau apêl gyrraedd y cafodd perthnasau yr Athro Rossi fynd i'w weld yn iawn.**

**Rhyddhawyd yr Athro Rossi yn y diwedd ar 24 Hydref 1973. Wedi hynny, ysgrifennodd i ddweud:**

"Rydym yn ddiolchgar i nifer fawr o bobl, yn enwedig yn Ewrop, am eu diddordeb parhaus yn ein sefyllfa, gyda'r holl drais a anelwyd atom.

Yn f'enw fy hun, yn enw fy ngwraig, ein plant a phobl eraill yn Brasil mewn sefyllfaoedd tebyg, hoffem ddiolch am bob enghraifft o drugaredd a charedigrwydd a fu o gysur ac o gymorth inni."

# Pa mor effeithiol ydyw?

**Mewn dros un rhan o dair o’r achosion bob blwyddyn lle cafodd apeliadau Gweithredu Brys eu hanfon, cafwyd rhyw welliant yn amodau’r carcharor**

Mae’n anodd asesu’n gywir faint o effaith y mae apeliadau Gweithredu Brys yn eu cael. Prin y byddai Amnest Rhyngwladol yn honni iddo fod yn gyfrifol ar ei ben ei hun am lwyddo i ryddhau carcharor neu sicrhau rhyw welliant yn amodau’r carcharor. Gall llawer o ffactorau eraill fod ar waith – gan gynnwys pwysau o du cyrff rhyngwladol eraill a grwpiau iawnderau dynol lleol.

Serch hynny, y mae llawer o dystiolaeth bod apeliadau Gweithredu Brys yn aml yn cael effaith arwyddocaol a chadarnhaol ar lywodraethau a’u bod yn effeithiol o ran atal neu rwystro troseddu difrifol yn erbyn iawnderau dynol.

Mae Amnest Rhyngwladol yn amcangyfrif bod amodau carcharorion yn gwella rhyw gymaint mewn dros un rhan o dair o’r achosion sy’n cael sylw mewn taflenni Gweithredu Brys. Hynny yw, mewn un o bob tri achos mae carcharor yn cael ei ryddhau, mae rhywun sydd “wedi diflannu” yn ailymddangos, newidir dedfryd o farwolaeth, rhoddir triniaeth feddygol i garcharor sâl er na châi dderbyn triniaeth hyd at hynny, daw carcharu heb gysylltiad i ben gan leihau’r perygl o boenydio, ac mae teuluoedd a chyfreithwyr yn cael caniatâd i ymweld â’r carcharor.

Fodd bynnag, mae ffeithiau yn argyhoeddi mwy nag ystadegau...

Mae llawer o bobl, gan gynnwys cyn-garcharorion a’u perthnasau, wedi mynegi eu ffydd yn y cynllun Gweithredu Brys ac wedi pwysleisio pwysigrwydd y miloedd o lythyrau sy’n cael eu hanfon o ganlyniad i apeliadau Gweithredu Brys.

O lythyrau y daw’r dyfyniadau isod – y cyntaf oddi wrth rywun sy’n perthyn i garcharor a’r ail oddi wrth gyn-garcharor, ac mae eu neges yn glir:

“*Fel y mae llawer ohonoch eisoes yn gwybod, llwyddodd y cannoedd o delegramau a llythyrau a’r adroddiadau yn y wasg ym mhedwar ban byd i atal y poenydio erchyll a ddioddefai, a hynny ar unwaith. Cafodd ei achub rhag tranc llawer o rai eraill tebyg... a gafodd eu llofruddio yn ystod y misoedd diwethaf.*”

“*Hoffwn fynegi pa mor ddiolchgar ydwyf am eich ymdrechion a fu’n gyfrifol am fy rhyddhau… Hoffwn hefyd roi gwybod i chi gymaint oedd effaith eich ymdrechion ar fy ysbryd pan glywais amdanynt wrth gael fy nhrosglwyddo… Bellach nid oeddwn yn teimlo fy mod ar fy mhen fy hun, ac ysgafnhaodd y baich o ddioddef y sen, y difrïo a’r cam-drin corfforol.*”

Fe welwch negeseuon eraill o ddiolch ar ymyl y ddalen ar dudalennau eraill yn y canllaw hwn. Fodd bynnag, un enghraifft dda i’w defnyddio yw canlyniad yr ymgyrch Gweithredu Brys gyntaf. Cafwyd llwyddiant mawr yn gynnar yn yr ymgyrch honno a rhoddodd hwb i ddatblygu’r rhwydwaith Gweithredu Brys fel ag y mae heddiw:

Yn wreiddiol cafodd María José Rossi neges telegram yn dweud wrthi am fynd draw i bencadlys DOPS yn São Paulo i ‘adnabod corff ei gŵr’. O gyrraedd yno, fodd bynnag, gwelodd ei gŵr yn fyw a dangoswyd iddi domen o lythyrau oddi wrth gefnogwyr Amnest Rhyngwladol ym mhob rhan o’r byd. Dywedodd Cyfarwyddwr y DOPS wrthi “*Mae’n rhaid bod eich gŵr yn bwysicach nag oeddem yn sylweddoli, achos fe gawson ni’r holl lythyrau hyn o bedwar ban byd.*”

Mewn cyfarfod o Gydlynwyr Amnest Rhyngwladol yn Brasil ym 1995, dywedodd María José Rossi:

“*Yn fy marn i, yr oedd cyfraniad Amnest Rhyngwladol yn hanfodol neu byddai Luiz wedi cael ei boenydio eto a gwaeth na hynny. Roeddwn i’n cael yr argraff gan Gyfarwyddwr y DOPS (yr heddlu milwrol) ei fod ef a’r awdurdodau yn teimlo dan bwysau mawr o du Amnest Rhyngwladol…*”

# O ble y daw'r wybodaeth?

Telecs o ffederasiwn undeb llafur yn gweithio ym Mexico gyda'r newyddion brys fod undebwyr llafur wedi'u cipio yn Ninas Guatemala a bellach wedi "diflannu"; gallai cyfreithiwr ffonio o Nigeria yn pryderu am dynged myfyrwyr sy'n cael eu dal heb gysylltiad, heb eu cyhuddo a heb dreial; gallai gwraig carcharor cydwybod ysgrifennu i ddweud bod ei gŵr yn ddifrifol wael mewn carchar yn Namascus; gallai teledeipiadur yn asiantaeth newyddion Reuters yn Swyddfa Ryngwladol Amnest ddod â newyddion am ddedfryd o farwolaeth ar smyglwyr cyffuriau ym Malaysia. Daw gwybodaeth hefyd o'r cyfryngau rhyngwladol – papurau newydd ac adroddiadau ar y radio – negeseuon gan gysylltwyr Amnest Rhyngwladol ledled y byd, newyddion gan alltudion a ffoaduriaid gwleidyddol am deuluoedd a ffrindiau sy'n dal yn eu mamwlad.

Yn achos yr Athro Rossi, yn y daflen Gweithredu Brys gyntaf, daeth yr wybodaeth am ei restio trwy nifer o bobl. Ei wraig, María José Rossi, sy'n egluro:

"*Roedden ni'n methu gadael y tŷ, ddim i'r stryd hyd yn oed, felly roedd yn rhaid i mi ysgrifennu nodyn i gymydog heb i'r heddlu weld.*" Trwy ffenestr gefn a merch ifanc y cymydog, anfonwyd y neges at offeiriad, a'i rhoddodd yn ei dro i Esgob Lins. Yn y diwedd fe gyrhaeddodd bencadlys Amnest Rhyngwladol yn Llundain.

Mae Amnest Rhyngwladol yn sicrhau bob amser bod yr wybodaeth yn gywir, yn enwedig pan ddaw o ffynhonnell ddieithr. Ond daw'r rhan fwyaf o'r wybodaeth o ffynonellau dibynadwy. Mae gan Amnest Rhyngwladol rwydwaith eang a dibynadwy o gysylltiadau yn amrywio o bobl sy'n byw yn y gwledydd dan sylw i'r rhai sy'n byw a theithio y tu hwnt i'w ffiniau. Yn naturiol, mae'r nifer o ffynonellau gwybodaeth yn amrywio o wlad i wlad.

Serch hynny, weithiau does dim amser i sicrhau bod pob darn o wybodaeth a ddaw i law yn gywir, yn enwedig pan fo bywyd unigolyn mewn perygl. Felly rhaid i ymchwilwyr Amnest Rhyngwladol wneud penderfyniad ar sail yr wybodaeth sydd ganddynt a'u profiad o'r wlad dan sylw. Yn amlwg ni fyddai Amnest Rhyngwladol yn 'mabwysiadu' carcharor yn Garcharor Cydwybod ar y sail hon, ond os oes amheuaeth fod rhywun yn cael ei boenydio, yna mae brys yn hanfodol.

Ni fyddwn byth yn gofyn i chi wneud cais am **ryddhau** carcharor oni bai fod Amnest Rhyngwladol yn siwr iddynt gael eu carcharu oherwydd eu credoau yn unig ac nad ydynt wedi defnyddio nac annog defnyddio trais. Ond mae'n bosibl y gofynnir yn aml i chi wneud cais fod y carcharor yn cael ei hawliau llawn yn ôl y gyfraith; os yw unigolyn wedi "diflannu", ei fod yn cael ei ddarganfod; os yw unigolyn yn sâl, ei fod yn derbyn triniaeth feddygol ar unwaith; fod neb yn cael ei boenydio, ei drin yn greulon na'i ddienyddio.

***"Mae'r rhai ohonom sy'n credu mewn iawnderau dynol yn Colombia yn dibynnu cymaint ar gefnogaeth y gymuned ryngwladol yn ein gwaith. Mae llywodraeth Colombia yn fwyfwy ymwybodol o farn ryngwladol, ac mae ymgyrchoedd fel rhai Amnest yn bwysig iawn. Rwy'n credu bod y rhwydwaith Gweithredu Brys yn ddefnyddiol wrth atal unrhyw gam-drin sydd ar fin digwydd."***

Lourdes Castro Garcia, cyfreithiwr a gafodd ei erlid yn barhaus.

# Derbyn Gweithredu Brys

*“Diolch mam o'l mawr i holl aelodau Amnest Rhyngwladol am roi help llaw i fenyw ddieithr a’i mab ym mhen draw byd... am eich cymorth yn arbed bywyd fy mab, a thrwy hynny fy arbed innau hefyd.”*

Mam Igor Yurevitch Kopytin yng Ngweriniaeth Belarus o glywed y newyddion i ddedfryd o farwolaeth ei mab gael ei newid yn garchar am 15 mlynedd.

Os ydych chi wedi dewis derbyn taflenni Gweithredu Brys er mwyn anfon apeliadau, yna o bryd i’w gilydd byddwch yn derbyn cais i weithredu. Gallwn drefnu pa mor aml rydych yn gweithredu yn ôl eich dymuniad. (Gweler ‘Pa mor aml mae angen apelio?’ gyferbyn am wybodaeth bwysig.)

Gallwn anfon taflenni Gweithredu Brys atoch mewn un o dair ffordd - post, ffacs neu bost electronig.

Y ffordd gyflymaf o dderbyn taflenni Gweithredu Brys yw dros y ffacs drwy’r post electronig. Bydd taflenni Gweithredu Brys dros y ffacs neu’r e-bost yn cyrraedd ar yr un diwrnod ag y cyhoeddir nhw gan y Swyddfa Ganolog Ryngwladol.

Bydd taflenni sy’n cael eu postio yn cymryd o leiaf ddiwrnod i gyrraedd gyda stamp dosbarth cyntaf.

Dewiswch y dull cyflymaf sydd ar gael i chi. Os hoffech newid eich dull o dderbyn taflenni, defnyddiwch un o’r ffurflenni ar dudalen 31.

# Cynllun Rhoddwyr Ernes

Crewyd y cynllun Rhoddwyr Ernes sy’n rhan o Gweithredu Brys, Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol, ym 1987 er mwyn sicrhau bod telecsau, telegramau neu ffacsiau yn cael eu hanfon ar unwaith o swyddfa Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol ar bob achlysur. Ar hyn o bryd mae dros 2,000 yn aelodau o’r cynllun Rhoddwyr Ernes. Mae llawer ohonynt hefyd yn dewis ysgrifennu llythyrau apêl eu hunain.

Mae pob swyddog llywodraeth ar y daflen Gweithredu Brys yn derbyn o leiaf un ffacs neu delecs ac un telegram oddi wrth y tîm Gweithredu Brys.

**Mae’r apeliadau hyn ymysg y cyntaf i gyrraedd y swyddfeydd a dargedir, a chafwyd achosion pan gafodd carcharorion eu rhyddhau oriau’n unig ar ôl i’r apeliadau hyn ddechrau cyrraedd.**

Mae pobl sy’n dewis ymuno â’r cynllun hwn yn cyfrannu swm o arian bob blwyddyn – £12.00 yw’r lleiafswm – er mwyn i delecsau, ffacsiau a thelegramau gael eu hanfon gan staff y cynllun Gweithredu Brys yn eu henw. (Mae telegram yn costio dros £15, felly cyfraniadau mawr yn unig a ddefnyddir i anfon telegramau.) Anfonir llythyr yn gofyn i chi adnewyddu’r cyfraniad union flwyddyn ar ôl i ran o’ch cyfraniad gael ei ddefnyddio am y tro cyntaf.

Byddwn yn anfon copi atoch o’r apêl a ysgrifennwyd ar ran y rhoddwyr ynghyd â thaflen yr apêl. Yna gallwch anfon copi o’r apêl a anfonwyd ar eich rhan at un neu ragor o’r swyddogion a enwir, fel y llysgennad perthnasol ym Mhrydain.

Gall pobl ddewis hyd at chwe gwlad lle y byddai’n well ganddynt beidio ag anfon apeliadau, a gallant ddewis talfyrru eu cyfeiriad hefyd.

Os hoffech ymuno â’r cynllun Rhoddwyr Ernes, mae ffurflen ar dudalen 31 i’r rhai a hoffai ymuno.

**Dalier sylw**: Os ydych eisoes yn aelod o’r cynllun Rhoddwyr Ernes, peidiwch â defnyddio’r ffurflen hon i adnewyddu eich cyfraniad – byddwn yn anfon ffurflen atoch ar yr adeg briodol.

# Pa mor aml mae angen apelio?

Yn aml bydd pobl yn holi pam na ellir anfon taflenni Gweithredu Brys atynt yn fwy rheolaidd, e.e. dim ond un bob mis. Ond, ni allwn warantu bod y rhai sy'n cymryd rhan yn y rhwydwaith Gweithredu Brys yn derbyn achosion yn rheolaidd. Er enghraifft, os byddwch yn gofyn am 12 achos y flwyddyn, nid yw hyn o anghenraid yn golygu un bob mis. Mae'n golygu mewn gwirionedd nad anfonir atoch fwy na 12 achos, a chais am weithredu, o fewn cyfnod o ddeuddeng mis.

Ni allwn fod yn fwy pendant na hyn oherwydd ein hymrwymiad i ddarparu rhagor o wybodaeth i chi lle bynnag y bo modd. Byddwn yn anfon taflenni Gwybodaeth Bellach atoch gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am achosion Gweithredu Brys wrth i Amnest Rhyngwladol dderbyn manylion newydd am y sefyllfa. Os caiff carcharor ei ryddhau, anfonir taflen Gwybodaeth Bellach. Mae'n bosibl hefyd yr anfonir Gwybodaeth Bellach os bydd sefyllfa'r carcharor yn dirywio. Mae'r rhain yn cael eu hanfon at bawb a dderbyniodd y daflen Gweithredu Brys wreiddiol, hyd yn oed os ydych wedi dweud eich bod yn absennol neu ar eich gwyliau. Fodd bynnag, ni fyddwn yn anfon taflenni Gweithredu Brys newydd atoch os cawsom wybod eich bod ar wyliau.

Felly, mae taflenni Gwybodaeth Bellach yn gallu ateb dau ddiben:

1. Rhoi newyddion am unigolyn/unigolion y buoch yn gweithredu ar eu rhan yn y gorffennol.
2. Gofyn am apeliadau pellach ar ran yr unigolyn/unigolion.

Nid yw pob taflen Gweithredu Brys yn cael eu dilyn gan daflen Gwybodaeth Bellach – mae llawer o achosion "diflannu", er enghraifft, sydd byth yn cael eu datrys – ond lleiafrif yw'r rhain. Mae'n debygol iawn, felly, y byddwch yn derbyn llawer o daflenni Gwybodaeth Bellach ar ben y taflenni Gweithredu Brys 'newydd'.

Dyma enghraifft o lythyrwraig sy'n gofyn am ddeuddeg o achosion y flwyddyn: mae'n derbyn taflen Gweithredu Brys ynglŷn â chosb eithaf yn yr Unol Daleithiau ar 2 Ionawr. Disgwylir y bydd y carcharor yn cael ei ddienyddio ar 15 Ionawr. Os bydd y dienyddiad yn cael ei atal gallai Amnest gyhoeddi taflen Gwybodaeth Bellach cyn neu ar 15 Ionawr. Os yw'r carcharor yn cael ei ddienyddio yna byddwn yn cyhoeddi taflen Gwybodaeth Bellach ar y 15fed neu'n fuan wedyn. Mae'r llythyrwraig, felly, wedi derbyn 2 daflen mewn mis.

Rydym yn teimlo'n gryf y dylai pawb a roddodd o'u hamser a'u hadnoddau i helpu carcharor gael gwybod am y datblygiadau diweddaraf. Hefyd, mae llawer o lythyrwyr Amnest Rhyngwladol eu hunain wedi dweud wrthym y byddai'r mwyafrif ohonynt yn croesawu'r cyfle i dderbyn rhagor o wybodaeth.

Felly, mae'n amhosibl rhagweld faint o daflenni Gwybodaeth Bellach fydd yn eich cyrraedd bob mis – oni bai ein bod yn rhoi'r gorau i gyhoeddi taflenni Gwybodaeth Bellach yn gyfan gwbl. Os bydd ymchwilydd yn derbyn gwybodaeth newydd mae'n bosibl y byddant yn penderfynu anfon taflen Gwybodaeth Bellach. Weithiau, felly, gallwch dderbyn taflenni Gwybodaeth Bellach am wahanol achosion yn agos at ei gilydd (neu hyd yn oed ar yr un diwrnod).

Rydym yn deall na fydd hi bob tro'n bosibl ymateb i'r holl geisiadau ychwanegol hyn i weithredu, o safbwynt arian ac amser. Y peth pwysig yw eich bod yn ymateb i unrhyw daflen Gweithredu Brys newydd sy'n apelio o'r newydd ar ran unigolyn/unigolion. Serch hynny, mae unrhyw daflenni Gwybodaeth Bellach sy'n gofyn i chi weithredu eto yn cyfrif tuag at gyfanswm nifer yr achosion y dymunwch eu derbyn mewn blwyddyn. Gan ddefnyddio'r un enghraifft uchod, os bydd y llythyrwraig yn derbyn tair taflen Gwybodaeth Bellach i weithredu arnynt, yna bydd yn derbyn tair taflen Gweithredu Brys newydd yn llai i ymateb iddynt.

Wrth reswm, os gallwch ymateb i bob taflen Gweithredu Brys a anfonir atoch, yna byddwn yn hynod ddiolchgar. Mae'n bwysig iawn dal ati a dangos nad ydym yn "anghofio" am yr un carcharor.

**O anfon mwy nag un don o apeliadau mae'n bosibl ei fod yn dangos i'r swyddogion llywodraeth a dargedir bod llythyrwyr yn ar olygu'r sefyllfa a bod eu pryder yn fwy na diddordeb dros dro.**

# Anfon apêl

**"Chefais i ddim fy mhoenydio ac fe ges fy rhyddhau ar ôl treulio cyfnod byr iawn yn y carchar o gymharu ag eraill. Rwy'n credu imi gael fy rhyddhau oherwydd y pwysau rhyngwladol trwyddoch chi ac eraill. Heb y gefnogaeth honno, go brin y byddwn yma heddiw. Rwy'n ddiolchgar iawn i chi…"**

Gedun Rinchen, arweinydd twristiaid o Tibet: cafodd ei restio ym mis Mai 1993 a'i ryddhau yn annisgwyl wyth mis yn ddiweddarach.

**• Os gwelwch yn dda, a wnewch chi weithredu cyn gynted ag y derbyniwch daflen Gweithredu Brys.**

• Darllenwch yr argymhellion ar bob taflen a dilynwch y cyfarwyddiadau wrth anfon eich apêl.

• Os oes modd, anfonwch ffacs, telegram, llythyr brys neu bost awyr ar unwaith at un neu ragor o'r cyfeiriadau ar y daflen. Gellir anfon llythyrau eraill wedyn.

Byddai'n well gennym ni petaech yn anfon ffacs, telecs, neu delegram ar ran carcharorion, oherwydd bod amser yn hollbwysig. Ond, os na allwch fforddio'r rhain, yna anfonwch lythyrau post awyr (gellir eu hanfon ar frys i rai gwledydd - holwch yn Swyddfa'r Post). Gallech anfon un telegram ac yna un neu ddau lythyr post awyr, os gallwch fforddio gwneud hynny. Ceisiwch sicrhau eich bod yn gweithredu mor gyflym â phosibl.

• Er y byddai'n well gennym ni petaech yn fodlon anfon apêl ar ran carcharorion mewn unrhyw wlad, os oes gennych ffrindiau neu berthnasau mewn gwlad arbennig mae croeso i chi ddweud nad ydych yn awyddus i weithredu ar ran carcharorion yn y gwledydd arbennig hyn.

• Dylai llythyrau apêl fod yn fyr a chwrtais. Pwysleisiwch nad yw eich pryder am iawnderau dynol yn perthyn o gwbl i blaid wleidyddol. Gallech gyfeirio at y cymalau perthnasol mewn cyfraith ryngwladol, fel Datganiad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar Iawnderau Dynol.

• Wrth gloi'r llythyr gallech ychwanegu: "Edrychaf ymlaen at glywed gennych ynglŷn â'r mater difrifol hwn." Gallwch gloi'n syml gydag "Yr eiddoch yn gywir". Neu, mae'n well gan rai pobl fod yn fwy ffurfiol a defnyddio "Gyda dyledus barch". Os ydych wedi ysgrifennu llythyr cymharol hir a manwl at uchel swyddog llywodraeth, mae'n bosibl y byddwch am ddefnyddio ffurf ddiplomatig llawnach: "Derbyniwch, Eich Ardderchowgrwydd, sicrwydd o'm hystyriaeth lawnaf."

• Gallwch ddefnyddio enw Amnest Rhyngwladol yn eich llythyrau, **oni bai y gofynnir yn benodol i chi ysgrifennu yn breifat neu'n broffesiynol**. Mae llythyrau preifat neu broffesiynol yn gallu bod yr un mor effeithiol (a hyd yn oed yn fwy effeithiol weithiau).

• Ysgrifennwch eich llythyrau yn Gymraeg neu Saesneg oni bai y gellir eu hysgrifennu'n gywir yn iaith y wlad dan sylw. Peidiwch ag oedi yn aros am gyfieithiad - anfonwch eich llythyr ar unwaith.

• Anfonwch gopïau o'ch apeliadau, os oes modd, at o leiaf un o'r bobl/cyrff a restrir ar y daflen dan *ANFONWCH GOPÏAU AT*.

• Ceisiwch sicrhau bob amser eich bod yn anfon copi o'ch apêl at Lysgenhadaeth neu Uchel Gomisiwn y wlad dan sylw ym Mhrydain. Gofynnwch iddynt fynegi eich pryderon wrth yr awdurdodau priodol. Rhoddir y cyfeiriad perthnasol ar y taflenni Gweithredu Brys bob tro.

• Anfonwch gopïau o unrhyw atebion a dderbyniwch oddi wrth awdurdodau llywodraeth at Gydlynydd Gweithredu Brys yn Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol. Os yw'n briodol, gallai fod yn werthfawr i chi ddiolch i'r swyddog a atebodd eich llythyr a gofyn am gael unrhyw wybodaeth bellach am y sefyllfa.

# Cyfarch swyddogion

Nid oes unrhyw gonfensiwn rhyngwladol yn hyn o beth, ond mae’n ddigon saff defnyddio’r canlynol:

| | |
|---|---|
| **Eich Mawrhydi** | Brenin, Brenhines; |
| **Eich Ardderchowgrwydd** | Arlywydd a Phennaeth Gwladwriaeth; |
| **Annwyl Syr/Madam, Eich Ardderchowgrwydd** | Prif Weinidog Gweinidogion |
| **Annwyl Lysgennad/Uchel Gomisiynydd** | Llysgenhadon ac Uchel Gomisiynwyr |
| **Annwyl Syr/Madam** | staff eraill y Llysgenhadaeth fel y Chargé d’Affaires |
| **Eich Anrhydedd** | Barnwr |
| **Annwyl Lyngesydd/Gadfridog/Gapten ac ati** | swyddogion milwrol |
| **Eich Gras** | Archesgob |
| **Eich Arucheledd** | Cardinal |
| **Annwyl Esgob** | Esgob |
| **Annwyl Mr/Tad** | Clerigwyr eraill. |

***“Rydym ni o’r farn mai oherwydd y gweithredu brys rhyngwladol y daeth Robinson Lusitante i’r golwg yn fyw.”***

Cyfreithwyr yn ymwneud ag achos Robinson Lusitante a "ddiflannodd" ym mis Rhagfyr 1991. Daethpwyd o hyd iddo mewn carchar milwrol wedi i Brocuradur Cyffredinol Colombia wneud ymholiadau brys ynglŷn â’i achos.



“Y coblyn! Ro’n i’n troseddu yn erbyn iawnderau dynol cyn iddo fo gael ei eni!”

# Anfon… Post Awyr

Llythyrau post awyr yw'r rhan fwyaf o'r ymateb i bob taflen Gweithredu Brys. Weithiau anfonir miloedd o lythyrau post awyr a Swiftair ar ran unigolyn at swyddogion llywodraeth.

**Post awyr**

Mae fel arfer yn cymryd rhwng 3-4 diwrnod o fewn Ewrop a 4-7 diwrnod y tu allan i Ewrop. Ond cofiwch osod label post awyr yng nghornel chwith uchaf yr amlen, neu ysgrifennu 'Par Avion – Post Awyr' yn yr un man.

Wrth ddefnyddio gwasanaethau post awyr y tu allan i Ewrop, gallwch ddisgwyl i'r llythyr gael ei ddosbarthu o fewn 2-7 diwrnod mewn dinasoedd, gan ddibynnu ar y wlad. Gwnewch yn siwr eich bod yn defnyddio sticer post awyr. Mae llythyrau post awyr sy'n pwyso hyd at 10g yn costio 26c** i wledydd yn yr Undeb Ewropeaidd a 43c** i bobman arall.

**Aerogrammes**

Mae aerogrammes, sef papur ysgrifennu ac amlen mewn un, yn costio 36c yr un** i bob man. Neu, gallwch brynu pecyn o chwech am £1.99**.


**Swiftair**

Mae Swiftair (Post Awyr Cyflym) yn ddelfrydol pan mae angen anfon llythyr hyd yn oed yn gyflymach. Er nad yw'n wasanaeth â gwarant, mae Swiftair yn wasanaeth post awyr cyflym a rhad ledled y byd.

Wrth anfon llythyr trwy Swiftair, mae'n cael blaenoriaeth awtomatig ac yn mynd ar yr awyren gyntaf bosibl i'r wlad dan sylw. Ar ôl cyrraedd yno, mae'n cael ei ddosbarthu drwy'r gwasanaeth llythyrau cyflymaf.

Er mwyn anfon llythyr Swiftair, y cyfan sy'n rhaid ei wneud yw gosod label Swiftair arbennig. Mae'r rhain ar gael ym mhob swyddfa bost. Mae gwasanaeth Swiftair yn costio £2.70** am bob llythyr ynghyd â chost post awyr.

Mae'r Post Brenhinol yn cynnig pecynnau SWIFTPACK arbennig. Amlenni post awyr brys yw'r rhain. Maent yn cynnwys stamp post awyr hyd at 50 gram i unrhyw le yn y byd am £3.00**. Rydych yn gosod eich llythyr yn yr amlen, ysgrifennu'r cyfeiriad, rhoi eich enw a'ch cyfeiriad chi ar y cefn a'i roi dros y cownter mewn unrhyw swyddfa bost.



**Cysylltwch â'ch swyddfa bost leol am ragor o fanylion am y gwasanaethau hyn.**

**Mae'r prisiau yn gywir ym mis Tachwedd 1997. Gallai'r prisiau newid.

# Anfon… Telecs

Mae'r mwyafrif o daflenni Gweithredu Brys yn cynnwys rhifau telecs ar gyfer un neu ragor o swyddogion llywodraeth. Mae hyn yn golygu y gallwch anfon negeseuon eithaf hir yn gyflym ac yn uniongyrchol at yr awdurdodau llywodraethol perthnasol yn y wlad a dargedir.

Cyn anfon y telecs, rhaid rhoi côd perthnasol y wlad o flaen y rhifau telecs a restrir yn y taflenni Gweithredu Brys.

Mae llawer o gwmnïau telenegeseuon ym Mhrydain yn anfon telecsau, ffacsiau a thelegramau rhyngwladol. Mae Telecom Prydain yn cynnig gwasanaeth o'r fath, ynghyd â Fox Europe sydd â hysbyseb ar dudalen 15.



# Anfon… Ffacs

Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf o daflenni Gweithredu Brys yn cynnwys rhifau ffacs hefyd. Mae ffacs hyd yn oed yn rhatach na thelecs. Gellir anfon neges hirach, mwy manwl a gellir ei hanfon yn gynt na thelecs. Mantais arall sydd gan y ffacs dros y telecs yw y gellir cynnwys acenion ar lythrennau ac y gellir defnyddio priflythrennau a llythrennau bach.

Os oes gennych beiriant ffacs, mae hon yn ffordd gymharol rad o anfon apêl. Mae'n costio yr un faint â galwad ffôn i'r wlad. Os nad yw'n bosibl i chi ddefnyddio peiriant ffacs (**cofiwch fod yn rhaid cael caniatâd cyn defnyddio peiriant ffacs preifat i anfon apêl), mae modd anfon ffacs mewn llawer o lyfrgelloedd lleol neu drwy rai ar**graffwyr ar y stryd fawr. Mae'r rhain yn aml yn cynnig gwasanaeth ffacs ac yn fodlon anfon eich llythyr yn gymharol rhad.

**Os ydych yn defnyddio peiriant ffacs yn gyson ystyriwch dderbyn eich taflenni Gweithredu Brys oddi wrth Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol dros y ffacs hefyd.**

Cysylltwch â'r tîm Gweithredu Brys perthnasol yn Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol am ragor o fanylion neu llenwch y ffurflen gais ar Dudalen 31, i ddechrau derbyn taflenni Gweithredu Brys dros y ffacs ar unwaith. **Cofiwch, fodd bynnag, fod yn rhaid cael caniatâd unrhyw gwmni cyn i chi dderbyn taflenni Gweithredu Brys neu cyn anfon apêl dros offer ffacs y cwmni.**

Cafodd André Thélusma a chyfaill arall o Haiti eu restio ar 31 Gorffennaf 1994 wrth fynd gyda thri Americanwr i "ardal strategol" ym maes awyr Port-au-Prince, Cawsant eu rhyddhau ym mis Awst 1994. **Mae ffynonellau yn Haiti yn awgrymu iddynt gael eu rhyddhau oherwydd i Amnest Rhyngwladol weithredu ar eu rhan.**

# Anfon… Telegram

Mae tair rhan i delegram: yr enw, y testun a'ch llofnod. Rhoddir cyfeiriad telegram wedi'i dalfyrru ar bob taflen Gweithredu Brys.

**Mae anfon telegram yn gostus** – felly byddwch yn gryno (gweler yr enghreifftiau gyferbyn). Cofiwch gynnwys digon o wybodaeth berthnasol er mwyn i'r awdurdodau allu adnabod y carcharor dan sylw, megis: enw llawn, proffesiwn, dyddiad a man y carcharu ac ati, os gwyddoch. Os bydd rhestr hir o garcharorion, ni allwch enwi pob un ohonynt – rhowch enw'r cyntaf ar y rhestr ac ychwanegu "ac eraill".

Mae iaith telegram yn iaith arbennig. Peidiwch â chynnwys geiriau diangen, ansoddeiriau disgrifiadol, ailadrodd, atalnodi ac ystrydebau. Serch hynny, wrth grynhoi brawddegau gwnewch yn siwr bod y neges yn parhau yn eglur a diamwys. Mae geiriau â mwy na 10 llythyren yn cael eu cyfrif yn ddau air, felly, lle bynnag y bo modd, cadwch eich geirfa yn fyr a syml.

Os rhowch gyfeiriad y swyddog llywodraeth a'ch cyfeiriad chi ar y telegram, bydd yn rhaid i chi dalu am hynny.

Oherwydd bod telegramau yn gostus – mae cost telegram byr ar gyfartaledd tua £15.00, yn dibynnu ar y cyfeiriad – peidiwch â phoeni am roi eich cyfeiriad llawn ar ôl eich enw ar y telegram. Ond, ar ôl anfon eich telegram ceisiwch bob amser anfon apêl fwy manwl ar ffurf llythyr post awyr cyffredin (neu lythyr Swiftair). Gallwch gyfeirio at eich telegram yn eich llythyr dilynol.

Gallech lofnodi eich telegram e.e. John Huws Cyfreithiwr, Mari Dafis Meddyg, Dafydd Elis Grŵp Amnest Rhyngwladol Dolgellau, Rhian Jones Aelod Amnest Rhyngwladol Caerdydd, Sioned Roberts Athrawes Llangefni, Roger Williams Pensaer Aberaeron, ac ati. Dylech lofnodi eich enw eich hun (neu enw'r grŵp rydych yn ei gynrychioli) bob amser ar y telegram. Gallwch ddefnyddio enw Amnest Rhyngwladol yn eich llythyr neu delegram – oni bai fod y daflen Gweithredu Brys yn gofyn i chi beidio.

***"Diolch am bopeth a wnaethoch ar ein rhan. Rwy'n siwr i mi gael fy rhyddhau yn gynnar oherwydd eich ymdrechion chi."***

Carcharwyd Kim Un-ju (yn y llun) dan y Gyfraith Diogelwch Cenedlaethol yn Ne Korea a gorfod cyffesu i gyhuddiadau o ysbïo.



# Enghreifftiau o delegramau

Dyma rai ffurfiau y gallech eu defnyddio a'u newid yn ôl y sefyllfa dan sylw:

1. Pryderu mawr amodau caled afiechyd Juan Romero Martinez pennaeth undeb glowyr gofyn triniaeth feddygol treial buan neu ryddhau.

2. Angen gwybodaeth frys cyfreithiwr Juan Lopez restio Asuncion Ionawr 3 a sicrhau diogelwch corfforol.

3. Erfyn trugaredd Nikolai Karamazov carcharwyd Smolensk Gorffennaf 4 a newid cosb eithaf ar sail ddyngarol.

4. Restio Carlos Rodriguez diflannu Bogota Mawrth 29 cais brys gwybod lle cedwir gwarantu diogelwch a hawliau cyfreithiol llawn. Llythyr dilyn.

5. Pryder mawr iechyd dirywio carcharorion cydwybod Mohammed Salah Ben Kaddour a Kherieddine Salhi Carchar Trefol Tunis cais am sicrwydd sylw meddygol.

6. Gofyn taer Juan Martinez peidio gorfodi adref Uruguay yno wynebu carchar poenydio am resymau gwleidyddol.

7. Poeni'n fawr restio a threial annheg posibl gweithiwr metel Juan Rodolfo eisiau sicrhau achos apêl teg/cyhoeddus.

8. Restio myfyriwr Alonso Suarez 17 Mai Buenos Aires cadarnhau mynediad at gyfreithwyr treial teg a thrin teg.

9. Cais brys lleoliad Meddyg Juan Martinez diflannu Dinas Guatemala Mai 17 sicrwydd ei ddiogelwch. Llythyr dilyn.

10. Ceisio gwybodaeth carcharor cydwybod Maria Ivanova restiwyd Lvov Rhagfyr 20 ceisio manylion cyhuddiadau a sicrwydd cyfreithiwr o'i dewis.

Dyma enghreifftiau byrrach:

11. Erfyn rhyddhau Samuel Ollomo oherwydd afiechyd.

12. Pryder mawr lleoliad a diogelwch Simon Nguema.

13. Lle mae Juan Perez Montego? Llythyr dilyn.

14. Ceisio treial neu ryddhau Pierre Ovono.

***"At Amnest Rhyngwladol… Rwy'n falch iawn o'ch gofal mawr pan gefais fy hebrwng i Orsaf yr Heddlu i gael fy holi! Diolch yn fawr iawn… "***

Yusuf Serhat Bucak, perchennog papur *Yeni Ülke* yn Nhwrci. Gwelwyd y neges yn y papur ar 18 Awst 1991.

# Enghreifftiau o apeliadau

*"Hoffwn ddatgan fy niolch pennaf a gwerthfawrogiad mawr am eich holl bryder am gyflwr fy iechyd tra bûm dan glo yng Ngharchar Kuje yn Nigeria a'chymdrechion diflino i'm rhyddhau… Unwaith eto, diolch am bopeth a wnaethoch ar fy rhan ac am eich holl ymdrechion."*

Y Pennaeth Gani Fawehinmi a gafodd ei restio ym mis Gorffennaf 1993 a'i ryddhau ymhen y mis

Gan ei bod yn bwysig anfon eich apeliadau cyn gynted â phosibl, nid oes raid iddynt fod yn hir iawn. Gwnewch yn siwr eu bod yn cynnwys yr wybodaeth bwysicaf a ddisgrifir ar y daflen Gweithredu Brys, dan Gweithredu a Argymhellir.

Eich Ardderchowgrwydd,

Ysgrifennaf i apelio at Eich Ardderchowgrwydd ar seiliau dyngarol i arbed bywyd Mr. _______________ sydd wedi ei ddedfrydu i farwolaeth.

Gyda dyledus barch,

Annwyl Is–Gadfridog X,

Fel cyfreithiwr, roeddwn yn bryderus iawn o glywed adroddiadau am restio'r cyfreithiwr Mr. B_________ yn nhref C______ ar 10 Medi. Rwy'n ysgrifennu i ofyn am gyhoeddi lleoliad Mr. B_________ a sicrhau ei fod yn cael mynediad ar unwaith at ei deulu a chyfreithwyr. Gofynnaf hefyd iddo gael ei ryddhau oni bai fod cyhuddiadau yn ei erbyn a'i fod yn ymddangos gerbron llys barn cyffredin.

Yr eiddoch yn gywir,

Annwyl Gadfridog,

_________ wyf fi, (athrawes) o _________ ac aelod o Amnest Rhyngwladol. Rwy'n pryderu'n fawr ers clywed y newyddion am ddiflaniad Mrs. __________ yn Santiago, ar 9fed Tachwedd.

Byddwn yn dra diolchgar pe gallech roi gwybod i mi ble mae hi a'm sicrhau ei bod yn cael ei thrin yn dda. Byddwn yn ddiolchgar hefyd o gael newyddion am ei statws cyfreithiol. Yn hyn o beth, hoffwn yn barchus eich atgoffa o Erthygl 9 yn Natganiad Iawnderau Dynol y Cenhedloedd Unedig sy'n dweud "Ni ddylai neb gael ei ddwyn i ddalfa, na'i gaethiwo na'i alltudio yn fympwyol."

Gyda dyledus barch,

Annwyl Weinidog,

Testun pryder oedd derbyn newyddion am y dirywiad pellach yn iechyd Mr. S______, 56 oed. Rwy'n cael ar ddeall bod ei iechyd mewn perygl mawr erbyn hyn. Mae'n ymddangos iddo gael ei restio ym mis Hydref 19__ ac iddo fod dan glo heb gyhuddiad na threial ers hynny.

Oherwydd cyflwr iechyd difrifol Mr. S______, hoffwn eich annog i sicrhau ei fod yn cael mynd i ysbyty ar unwaith i dderbyn y driniaeth feddygol angenrheidiol. Hoffwn fynegi fy mhryder hefyd fod Mr. S____ yn parhau i gael ei ddal heb gysylltiad a phwysaf arnoch i sicrhau ei fod yn cael mynediad at gyfreithwyr a'i deulu.

Yr eiddoch yn gywir,

# Post electronig

Dosbarthu taflenni Gweithredu Brys trwy bost electronig yw un o'r dulliau cyflymaf sydd ar gael a dyma'n sicr un o'r rhataf. Ar ben hynny, mae nifer gynyddol o daflenni Gweithredu Brys yn cynnwys cyfeiriadau e–bost ar gyfer swyddogion llywodraeth felly gallwch anfon eich apeliadau yn gyflym trwy e–bost.



Os oes gennych wasanaeth e–bost, a wnewch chi ystyried derbyn taflenni Gweithredu Brys fel hyn – mae ffurflen ar dudalen 31 i chi anfon eich manylion atom.

# Taflen Gweithredu Brys

Bydd y taflenni Gweithredu Brys a dderbyniwch wedi cael eu hargraffu ar bapur melyn.

Rhif y daflen Gweithredu Brys a phryder(on) Amnest Rhyngwladol. Defnyddiwch y rhif Gweithredu Brys os bydd gennych unrhyw gwestiynau ar gyfer swyddfa Amnest Rhyngwladol.

Y wlad ac enw(au) yr holl bobl dan sylw.

Mae'r adran hon yn egluro'r helynt a rhai manylion ynglŷn â'r bobl.

Mae'r adran hon yn rhoi rhywfaint o wybodaeth gefndir sy'n gallu egluro pam y mae'r bobl ar y rhestr wedi cyrraedd y sefyllfa bresennol.

URGENT ACTION — AMNESTY INTERNATIONAL

**AMNESTY INTERNATIONAL**

United Kingdom
99-119 Rosebery Avenue
London EC1R 4RE

☎ 0171-814 6200
Telex: 917621 AIBS
Fax: 0171-833 1510

Nobel Peace Prize 1977
UN Human Rights Prize 1978

EXTERNAL

AI Index: AMR 41/05/96
13 February 1996

**UA 34/96 Ill-treatment / Fear of torture**

**MEXICO**

More than 50 people are being held in incommunicado detention following the forcible breaking up by the security forces of a peaceful environmental demonstration in the state of Tabasco. Amnesty International is concerned by reports of ill-treatment during the security force operation, and fears that those currently detained are at risk of torture or ill-treatment.

**Andrés Manuel López Obrado, PRD member**
**Dorilian Díaz Pérez, civil servant at Town Hall**
**Rafael López Cruz, President of the State Committee of PRD**
**Darvin González Ballina, former PRD parliamentarian**
**and more than 50 other PRD members**

A peaceful blockade by members of the Partido de la Revolución Democrática, PRD, Democratic Revolution Party, in the village of Huatacalca, Nacajuca, state of Tabasco, was taking place to demand compensation for pollution caused by an oil platform nearby.

On 7 February 1996, in an operation involving more than 500 members of the army and some 300 of the Federal and State Judicial Police, the security forces broke up the blockade. People were forced into their homes as teargas was launched from a helicopter. A number of people, including indigenous people and fishermen, were ill-treated during the operation. Andrés Manuel López Obrado received a head injury in the course of the police break-up of the blockade, but the full number of those wounded during the security force operation is still unknown.

Five people were arrested on 7 February, including Dorilian Díaz Pérez and Rafael López Cruz. Then, on 8 and 9 February, members of the police and military arrested more than 50 people in the municipalities of Cárdenas and Centla, Tabasco State, including Darvin González Ballina, the ex-municipal president and former PRD Member of Parliament for Tabasco state. An arrest warrant for Andrés Manuel López Obrado has also reportedly been issued.

**BACKGROUND INFORMATION**

Amnesty International has recorded a long-term pattern of ill-treatment and torture during arrest and incommunicado detention, heightening fears for those currently held. There are growing fears for the safety of PRD members and indigenous people involved in defending peasants' land rights in the state of Tabasco. Involvement in issues such as land disputes or compensation rights have often resulted in state-sponsored violence against peasants and opposition members in a number of Mexican states, including Guerrero (see UA 159/95, AMR 41/15/95, 5 July 1995 and updates [AMR 41/16/95, 26 July and AMR 41/18/95, 17 August]).

Amnesty International is an independent worldwide movement working for the international protection of human rights. It seeks the **release** of men, women and children detained anywhere because of their beliefs, colour, sex, ethnic origin, language or religious creed, provided they have not used or advocated violence. These are termed **prisoners of conscience.** It works for **fair and prompt trials** for **all political prisoners** and works on behalf of such people detained without charge or trial. It opposes the **death penalty** and **torture** or other cruel, inhuman or degrading treatment or punishment of **all prisoners.**

**RECOMMENDED ACTION:** Please send telegrams/telexes/faxes/express/airmail letters in Spanish or your own language:
- calling for a prompt, thorough and impartial investigation into allegations of the use of excessive force and ill-treatment (citing the case of Andrés Manuel López Obrado) by members of the police and military forces on 7 February 1996 in Huatacalca, state of Tabasco, and for those responsible to be brought to justice;
- seeking assurances that all those detained since 7 February are being humanely treated and are being allowed immediate access to doctors, their relatives and lawyers in accordance with international standards;
- calling for them to be promptly charged with recognizably criminal offences or immediately released.

**APPEALS TO:**

President of the Republic
Lic. Ernesto Zedillo Ponce de León
**[Salutation: Sr. President/Dear President]**
Presidente de la Repùblica
Palacio Nacional, 06067, México D.F., MEXICO
**Telegrams:** **Presidente Zedillo, México D.F., México**
**Telexes:** **170937 sppnme; 1774468 sppnme**
**Faxes:** **00 52 5 271 1764**

Governor of Tabasco State *
Roberto Madrazo Pintado
**[Salutation: Sr. Gobernador/Dear Governor]**
Gobernador del Estado de Tabasco
Palacio de Gobierno
Villahermosa, Tabasco, MEXICO
**Telegrams:** **Gobernador, Tabasco, México**
**Faxes:** **00 52 5 681 8125**

Minister of the Interior
Lic. Emilio Chuayffet Chemor
**[Salutation: Sr. Secretario/Dear Minister]**
Secretario de la Gobernación
Secretaría de la Gobernación
Bucareli 99, 1er piso
Col. Juárez, 06699, México DF, MEXICO
**Telegrams:** **Secretario Gobernación, México D.F., México**
**Faxes:** **00 52 5 546 5350/7380 592 0584**

**PLEASE SEND COPIES TO:** His Excellency Señor Andrés Rozental, Embassy of Mexico, 42 Hertford St., Mayfair, London W1Y 7TF. **Fax: 0171 495 4035**

**AND, IF POSSIBLE, TO THE FOLLOWING:**

Weekly magazine
Sr. Editor
La Jornada
Balderas 68
06050, México D.F., MEXICO

Human rights organization
Sres.
Comite de Derechos Humanos de Tabasco
A. Sánchez Magallanes 844 Altos
86000 Villahermosa, Tabasco, MEXICO

**PLEASE SEND APPEALS IMMEDIATELY.**

---

If you are a regular **Urgent Action** participant please inform your local group coordinator if you are unable to respond to this appeal.

- Please take action as soon as you receive this **Urgent Action** appeal. Carefully read the recommended action. If possible, send a telex telegram or express letter immediately to one or more of the addresses given. Other letters can be sent afterwards. An explanatory booklet is available from the United Kingdom Office.
- Telegrams and letters should be brief and courteous. Stress that your concern for human rights is not in any way politically partisan. Refer to relevant provisions in international law, such as the United Nations Universal Declaration of Human Rights.
- The name of Amnesty International may be used, although letters written in a private or personal capacity may be more effective.
- In **Urgent Action** cases, Amnesty International has to act rapidly to prevent the ill-treatment of prisoners. An appeal is issued when Amnesty International believes it has received reliable and accurate information in such cases. It is not always possible to verify all details independently and in some instances the situation outlined in the appeal may change. **Urgent Action** participants are always notified of any significant new facts.
- Copies of any replies received from government authorities should be sent immediately to the **Urgent Action** coordinator at the United Kingdom Office. If appropriate, thank the official who has replied and ask to be kept informed about the case.

Mae’r Gweithredu a Argymhellir yn nodi’r pethau yr hoffai Amnest Rhyngwladol i chi eu cynnwys yn eich apêl.

Mae’r adran hon yn rhestru’r swyddogion llywodraeth perthnasol a’u cyfeiriadau (post a thelegramau), rhifau ffacs, ac ati. Mae’r seren yn nodi pa swyddog yr hoffem i chi ysgrifennu ato os ydych yn anfon un apêl yn unig.

Mae’r adran hon yn cynnwys cyfeiriad cynrychiolydd diplomatig y wlad ym Mhrydain. Os oes modd, anfonwch gopi o’ch apêl/apeliadau atyn nhw.

Weithiau bydd yr adran copïau yn cynnwys cyfeiriadau papurau newydd, grwpiau iawnderau dynol, ac ati. Os oes modd, a wnewch chi anfon copi o’ch apêl/apeliadau at un neu ragor o’r rhain.

Canllawiau cyffredinol ar gyfer llythyrwyr Gweithredu Brys cyson.

# Gweithredu Brys Ieuenctid

Mae llythyrau a ysgrifennir yn uniongyrchol gan bobl ifanc at bobl sy'n dioddef cam yn erbyn eu hiawnderau dynol, neu at eu teuluoedd, yn gallu rhoi cysur mawr:

***"Mae'n hyfryd meddwl bod oedolion a phobl ifanc mewn gwledydd mor bell i ffwrdd – hynny yw, plant ifanc – sy'n pryderu amdanom ni, ac mae'n cyffwrdd fy nghalon gweld yr holl gardiau hyn wedi'u hysgrifennu yn llaw y plant eu hunain, ac mae'n gwneud i mi sylweddoli nad ydym ni ar ein pen ein hunain."***

– Gwraig i athro ysgol na chlywyd ganddo er iddo gael ei gipio ym 1984.

Ym mis Ionawr 1993, cyhoeddodd Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol y Gweithredu Brys Ieuenctid cyntaf un ar ran teuluoedd yn Colombia. Roedd aelodau o grŵp parafilwrol wedi bod yn eu bygwth. Gofynnwyd i bobl ifanc ysgrifennu llythyrau cwrtais at Brocuradur Cyffredinol Colombia yn gofyn iddo amddiffyn y teuluoedd er mwyn iddynt gael byw'n ddiogel yn eu pentref. Neu, fel y dywedodd un llythyrwr ifanc, Edmond Patrick: '*Annwyl Dr. Arrieta, Plîs wnewch chi stopio'r dynion drwg sydd wedi gorfodi Leonardo Pineda, ei deulu a'i ffrindiau i adael eu pentref*'.

Anelir taflenni Gweithredu Brys Ieuenctid at blant rhwng 8–12 oed. Maent yn cael eu dosbarthu at oedolyn, e.e. rhiant neu warcheidwad, neu athrawon, sy'n arolygu'r dasg o ysgrifennu llythyrau apêl.

Bob mis, mae un daflen Gweithredu Brys Ieuenctid yn cael ei ysgrifennu mewn iaith syml ac mewn teip mawr. Fel arfer bydd yr achos yn ymwneud â throseddau iawnderau dynol yn erbyn plant. Rhoddir map o'r wlad a'r cyfandir dan sylw, yn ogystal â gwybodaeth am boblogaeth y wlad, yr iaith/ieithoedd swyddogol ac ati. Cynhwysir copi o'r daflen Gweithredu Brys wreiddiol hefyd er gwybodaeth i'r oedolyn sy'n arolygu. Ni fyddwn yn cynnwys disgrifiad manwl o'r cam–drin neu'r poenydio.

Wrth ymuno â Rhwydwaith Gweithredu Brys Ieuenctid, mae'r oedolyn sy'n arolygu yn derbyn canllaw sy'n awgrymu sut i ddefnyddio'r daflen Gweithredu Brys Ieuenctid yn y ffordd orau. Yn y canllaw mae syniadau am ysgrifennu llythyrau, astudio celf a daearyddiaeth, ac mae'n cynnwys gwybodaeth am fideos sydd ar gael i'w llogi, i'w defnyddio gartref neu yn yr ystafell ddosbarth.

Nid yw'r syniad o sefydlu Gweithredu Brys Ieuenctid yn syniad newydd – yn yr wyth degau roedd Rhifyn Plant o'r Gweithredu Brys yn Amnest Rhyngwladol U.D.A. – a gwyddom am gynlluniau tebyg yn Canada, Bermuda a Jamaica. Yn wir, wrth ddatblygu'r rhwydwaith, a'r canllaw hwn, cawsom lawer o gymorth wrth weld y deunyddiau a baratoir gan Gydlynwyr Gweithredu Brys America a Canada. Yn ei dro, mae tîm Gweithredu Brys Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol yn fwy na pharod i rannu profiadau ac adnoddau, ac erbyn hyn rydym yn anfon taflenni Gweithredu Brys Ieuenctid i swyddfeydd Amnest Rhyngwladol mewn dros ddwsin o wledydd gan gynnwys Iwerddon, Mexico, Slofenia, Japan, a hyd yn oed i ysgol yn Kilimanjaro, Tanzania.

Ym mis Ionawr 1993, 65 copi o Gweithredu Brys Ieuenctid a anfonwyd. Erbyn heddiw, rydym yn dosbarthu dros 900 copi bob mis. Cyhoeddusrwydd sy'n rhannol gyfrifol am y cynnydd mawr yn aelodaeth y rhwydwaith – bu eitemau yng Nghyfnodolyn Amnest Rhyngwladol, a chylchlythyrau Rhwydwaith Athrawon Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol a Gweithgor y Plant, ond cafwyd hefyd erthyglau mewn cyhoeddiadau mor wahanol â *Woodcraft World* (cylchlythyr Gwerin y Coed) a *The Psychologis*t.

Ers i'r Gweithredu Brys Ieuenctid cyntaf ymddangos, gofynnwyd i'r llythyrwyr ifanc ysgrifennu i fwy na dwsin o wledydd ar ran amrywiaeth mawr o bobl, er enghraifft plant y stryd yn Brasil a Guatemala, athro ysgol ethnig o Albania sy'n byw yn Iwgoslafia a thri bachgen ifanc yn Nepal.

Ddiwedd 1993, cyhoeddwyd Gweithredu Brys Ieuenctid 'arbennig'. Ym mis Mehefin, yr oedd un o'r llythyrwyr ifanc wedi ysgrifennu ar ran Magda Hildaura Magiuña Campuzano, sef merch ysgol bedair ar ddeg oed o Periw a oedd wedi "diflannu". Yn ffodus, ymddangosodd Magda yn fyw ychydig yn ddiweddarach, a chyhoeddwyd taflen gweithredu pellach ym mis Rhagfyr yn gofyn i'r plant gynllunio cardiau Nadolig a'u hanfon at Magda. Yn yr un modd, ym mis Gorffennaf 1994, pan ofynnwyd i'r plant ysgrifennu at Lysgennad Honduras ar ran aelodau Pwyllgor o Berthnasau y "Diflanedig" yn Honduras (COFADEH), gofynnwyd hefyd iddynt anfon cardiau cyfarch at blant COFADEH.

Bu'r ymateb a gawsom gan rieni, athrawon, a'r plant eu hunain, yn werthfawr iawn o ran datblygu'r rhwydwaith a bu'n galonogol iawn.

Er 1993, bu tîm Gweithredu Brys Amnest Rhyngwladol ym Mhrydain yn ddigon ffodus i weld llawer o enghreifftiau o'r llythyrau a anfonwyd gan y plant. Mae'r llythyrau bob amser yn gwrtais ac yn aml wedi'u haddurno'n lliwgar. Mae pob llythyr yn arwydd o obaith fod ganddynt lais yn y byd, a'u bod yn *gallu* newid pethau er gwell.

Fodd bynnag, yr hyn sy'n taro'r rhan fwyaf o bobl yw iaith syml, uniongyrchol y plant, a'r delweddau trawiadol yn eu llygaid ifanc – wrth ysgrifennu at Faer Rio de Janeiro ar ran plant y stryd yn y ddinas honno, ysgrifennodd un bachgen "*Chi yw tad holl blant Rio, os gwelwch yn dda gofalwch amdanynt.*"

# …yn y dosbarth

Mae Perry Brook yn ysgol gynradd gymunedol fechan ar gyrion Ashton–in–Makerfield ger Wigan. Fel y mae'r enw yn awgrymu, mae'n gwasanaethu cymuned arbennig ac un gymharol wledig. Mae'n darparu addysg i blant cynradd, ond hefyd mae'n darparu gweithgareddau, adnoddau cymdeithasol a chanolbwynt ar gyfer y gymuned. Cymdogaeth o bobl wyn, dosbarth gweithiol yw hon a phrin yw eu profiad o wahanol ddiwylliannau.

Un o gryfderau cymuned yr ysgol yw ei bod yn glòs iawn. Efallai fod plwyfoldeb yn un o'n gwendidau. Er mwyn osgoi hyn, rydym yn ymdrechu i geisio gwneud pawb yn ymwybodol o faterion yn y byd yn gyffredinol. Un o'r syniadau oedd i fy nosbarth o blant 9–11 oed gyfrannu tuag at gynllun Gweithredu Brys Ieuenctid Amnest Rhyngwladol. Dechreuodd y cysylltiad ym mis Medi 1993.

Yn wahanol i brojectau eraill tebyg, roeddwn yn awyddus i ymgyrch Amnest fod yn fenter barhaol a chyson, ac nid ymdrech am dymor yn unig. Ond sut oedd cael digon o ymrwymiad heb ddiflasu ar dosturi? Wnaeth pethau ddim dechrau yn rhy addawol.

Ar ddechrau'r tymor fe eglurais i'r plant beth oedd Amnest a'r gwaith roedd yn ei wneud; buom yn trafod y logo; darllenais rannau o lythyrau enghreifftiol. Ni chefais unrhyw ymateb. Penderfynais ddirwyn y wers i ben a symud ymlaen. Ychydig ddyddiau yn ddiweddarach, cyrhaeddodd ein taflen gyntaf, sef Gweithredu Brys Ieuenctid yn sôn am dri myfyriwr o Nepal a oedd yn cael eu cam–drin gan aelodau o'r heddlu. Roedd hyn yn wahanol. Roedd y plant yn gweld hyn yn apêl uniongyrchol atynt yn bersonol.

Fel mae'n digwydd, roedd hanner y dosbarth yn cael gwers nofio, felly roedd y gweddill yn gallu trafod y mater yn fwy anffurfiol. Daethom o hyd i Nepal ar fap y byd (doedd neb wedi clywed am y lle), buom yn edrych ar enwau'r bobl a'r lleoedd, a sôn am swyddogaeth yr heddlu mewn cymdeithas. Buom yn trafod yr hyn y dylem ei gynnwys yn ein llythyrau a phwysigrwydd bod yn gwrtais. Roedd y llythyrau cyntaf yn dilyn y cyfarwyddiadau yn y Gweithredu Brys Ieuenctid yn eithaf agos ond roedd angen sawl cynnig arni cyn i'r plant lwyddo a chael defnyddio papur ac amlenni drudfawr y post awyr.

Erbyn i'r lleill ddychwelyd i'r ysgol, roedd ambell lythyr wedi'i orffen a darllenwyd y rhain a chael ymateb brwd. Gosodwyd copïau wrth ymyl ein map o'r byd a rhuban yn arwain at Nepal. Dyna gychwyn.

Mae pethau wedi datblygu ers hynny. Mae'r map ymgyrchu yn cael ei arddangos drwy'r amser gyda sylw arbennig yn cael ei roi i Weithred y mis. Mae copïau o lythyrau ynghyd â thaflenni Gweithredu Brys a thystysgrifau o werthfawrogiad yn rhan amlwg o Gofnod o Gyrhaeddiad y plant. Bellach mae patrwm i'r ymateb.

Mae'r plant yn cael eu gosod mewn Grwpiau Amnest o tua phump neu chwech ac mae pob grŵp yn ymateb yn eu tro. Pan ddaw cais am help, rwy'n ei ddarllen i'r holl ddosbarth ar y cyfle cyntaf. Rydym yn trafod y cefndir yn fyr, ac yna bydd un grŵp yn rhoi'r gorau i'w gwaith er mwyn paratoi eu hymateb. Anogir pob plentyn i gymryd rhan, ni waeth beth yw eu gallu.

O'r cychwyn cyntaf, roedd y plant yn chwilfrydig ynglŷn â logo Amnest a buom yn treulio peth amser yn trafod sut y gellir cyfleu negeseuon cymhleth yn syml gan ddefnyddio pensil neu frws paent. Gofynnais i Hazel Taylor, rhiant a chyn–gynllunydd graffeg, ddod â llyfr o bosteri i'r ysgol i sôn wrth y plant sut y mae posteri yn gweithio. Yna fe ddechreuodd hi weithio gyda grwpiau o blant i gynllunio posteri ar gyfer Gweithredu Brys Ieuenctid. Anfonwyd rhai o'r cynlluniau at Ray Mitchell (Cydlynydd Gweithredu Brys Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol) a braf yw dweud iddynt gael croeso mawr. Derbyniodd Darren Heaton, naw oed, glod arbennig, gwelodd ei gynllun yn troi'n boster 'go–iawn', a chafodd grys–T gan Amnest a phum pwynt gan Mrs. Starkey y Brifathrawes.

Wrth i'w hyder gynyddu, mae'r plant wedi dechrau defnyddio eu profiadau personol i ymateb i'r materion cymhleth dan sylw.

"*Samantha yw fy enw… ac rwy'n byw yn hapus gyda fy rhieni. Dydy'r heddlu yn fy ngwlad i ddim yn torri i mewn a dwyn plant bach*." Samantha Garnett (10)

Mewn gwirionedd, nid yw'r rhain yn faterion cymhleth o gwbl, dim ond amrywiad ar ddau beth sy'n pryderu plant ym mhob man: "*Dydi hynna ddim yn deg!*" a "*Bwlio ydi hynna!*" O gofio hyn, mae gennym arf pwysig – sef pryder syml un plentyn am les plentyn arall, ni waeth ble mae eu cymuned na sut un yw hi.

**Mae Ian Gray, sy'n athro ysgol gynradd yn Ashton–in–Makerfield, yn derbyn taflenni Gweithredu Brys Ieuenctid er mis Medi 1993. Yn ogystal a ganfon llawer o lythyrau apêl, gwnaeth ei ddosbarth gyfres o luniau am Amnest. Cawsant eu harddangos yng Nghyfarfod Blynyddol Cyffredinol Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol yn ddiweddar. Cafodd un o'r lluniau, gan Darren Heaton, ei ddefnyddio ar gyfer poster recriwtio (a welir ar y dudalen nesaf). Dyma rai o brofiadau Ian o ddefnyddio Gweithredu Brys Ieuenctid yn yr ystafell ddosbarth.**

# Gweithredu Brys Ieuenctid

Mae un rhiant a ymunodd â Rhwydwaith Gweithredu Brys Ieuenctid yn gynnar yn egluro ei rhesymau dros gymryd rhan:

"*Maegenidrimab, aphobunyn pryderuam iawnderaudynolyn ybyd.Maennhw'n gwylio'rnewyddion, yngweldtroseddu ynerbyniawnderau dynol,rydymni'n siarad,maennhw'n gweldpapuraua ffilmiauacyn cymrydrhan oherwyddfymodi'n cymrydrhanyng ngwaithAmnest. Sutgellirgwrthod llaisiblantneseu bodynoedolion,a hwythauheddiw'n gweldachlywed cymaint?Plantyw'r rhaidi–laisyng nghymdeithasybyd. O'rherwyddceir camanhygoelyn erbyneu hiawnderaudynol. Dylemfodynannog einplanteinhunain ifalioadysgu'n gynnarbodeullais yncyfrifathrwy unoâlleisiaueraill ygallantnewid pethauergwell.*"

Mae tua un rhan o dair o'r taflenni Gweithredu Brys Ieuenctid sy'n cael eu hanfon bob mis yn mynd yn syth i gartrefi yn y Deyrnas Gyfunol. Mae rhieni, gwarcheidwaid a neiniau a theidiau yn arolygu'r bobl ifanc wrth iddynt ysgrifennu llythyrau apêl.

Maent yn egluro cefndir y materion sy'n codi yn y daflen. Gellir gwneud hyn trwy ddefnyddio'r daflen Gweithredu Brys i oedolion sydd hefyd yn y pecyn, a gellir cynnwys gwybodaeth bellach o bapurau newydd. Yna maent yn helpu'r bobl ifanc ysgrifennu eu hapêl. Mae llawer o oedolion sy'n arolygu plant hefyd yn ysgrifennu eu hapêl eu hunain yr un pryd.

Yn aml iawn, y bobl ifanc eu hunain sy'n awyddus i gymryd rhan yn y rhwydwaith. Maent yn gweld eu rhieni yn ysgrifennu llythyrau mewn ymateb i'r Gweithredu Brys Oedolion ac yn dechrau gofyn cwestiynau. Wedi i'w rhieni egluro hanes y bobl yn y daflen, mae'r plant hefyd yn awyddus i gymryd rhan.



JUNIOR URGENT ACTION

17 March [illegible]

TURKEY Mahmut Havuç, aged 16

Amnesty International is very worried about Mahmut Havuç, a high school student, who has been taken away by the police.

On Tuesday 15 March, police went to the home of Mahmut Havuç in Mersin, southern Turkey. They searched the house and hit Mahmut and his father. Mahmut was taken away.

That same evening, Mahmut's father went to the police station but was told that Mahmut was not there. The following morning, Mahmut's mother went to the police station and was given the same answer.


Amnesty International is very worried that the police are keeping Mahmut from his family and may be hurting him.

Please write polite letters to the Ambassador of Turkey. (He is a representative of the Turkish Government who lives in London). Tell him that you are very worried about Mahmut Havuç. Ask him to make sure that Mahmut is not being hurt. Ask him to make sure that Mahmut's parents are allowed to see him.


The Ambassador's address is:

His Excellency Mr Candemir Önhon
Embassy of Turkey
43 Belgrave Square
London
SW1X 8PA

Please start your letter with 'Your Excellency'



Weithiau byddwn yn derbyn ceisiadau oddi wrth y plant eu hunain i ymuno â'r rhwydwaith. Yn yr achosion hyn byddwn yn cysylltu â'r rhieni a sicrhau eu bod yn dymuno i'w plant gymryd rhan. (Fel y nodwyd eisoes, nid ydym yn anfon unrhyw ddeunyddiau yn uniongyrchol at blant.)




Mae'r Rhwydwaith Gweithredu Brys Ieuenctid yn gyfle unigryw i blant uniaethu ag unigolion sy'n gysylltiedig ag eitemau yn y newyddion. Mae'n dysgu'r plant ei *bod yn bosibl* clywed eu llais oherwydd, fel y gwyddom ni oedolion ers tro byd, mae llythyru yn llwyddo.

Mae'r atebion a gawn oddi wrth swyddogion llywodraeth yn dyst i hynny, fel ag y mae geiriau'r rhai dan ormes yn dyst.


# … ar waith

Ym mis Mawrth 1994, anfonwyd Gweithredu Brys Ieuenctid ar ran Michael Mathe, 16 oed, yn Ne Affrica. (Dyma lun ohono.)



Yr oedd Michael wedi'i restio yn nhreflan East Rand yn Katlehong. Y noson y cafodd ei restio, yr oedd swyddogion yr heddlu wedi dychwelyd gyda Michael i chwilio ei gartref. Yn ôl tyst yn y tŷ, yr oedd yn amhosibl adnabod Michael oherwydd i'w wyneb gael ei guro'n ddidrugaredd.

Cadwyd Michael mewn gwahanol orsafoedd yr heddlu, gan gynnwys gorsaf Nyoni Farm lle bu'r heddlu yn ei holi. Honnir bod yr heddlu yn Nyoni Farm wedi ymosod droeon ar Michael a bygwth gadael i gi'r heddlu ymosod arno. Cyhuddwyd Michael o fod â gwn a grenâd llaw yn ei feddiant. Gwrthodwyd mechnïaeth iddo a chafodd ei gadw yn y ddalfa yng Ngharchar Boksburg lle cadwyd ef ar ei ben ei hun weithiau yn ei gell. Rywbryd fe'i dychwelwyd i Orsaf Heddlu Alberton.



28/3/94

HIS Exellency,
mr Kent D S Durr

your Excellency,
I am worried about michael mathe, who was arrested on 9th January 1994 in Katlehong. I feel it is wrong the way he has been beaten. As a child myself I can feel how awfull it must be to be in those circumstances. I have been told he is very frightend and upset and it is wrong for a child to feel like that, as I would trust the police and not expect them to beat me.

Please could you make sure he is not hurt anymore.
Please reply
Thank you, Amy Gray (Age 9

Yr oedd Amnest Rhyngwladol yn pryderu'n fawr am les corfforol a meddyliol Michael. Trefnwyd Gweithredu Brys Ieuenctid ac ysgrifennodd pobl ifanc, fel Amy Gray, at Mr. Kent Durr, Llysgennad De Affrica yn Llundain, yn gofyn iddo sicrhau na châi Michael ei gam–drin ymhellach. Yn y pendraw, yn dilyn llawer o bwyso ar yr heddlu, cafodd Michael ei drosglwyddo o Orsaf Heddlu Alberton i ysbyty cyfagos.

Yn ddiweddarach fe ryddhawyd Michael ar fechnïaeth ac mae yntau wedi cyhuddo Heddlu De Affrica o ymosod arno. Mae'n dal i dderbyn triniaeth am symptomau straen yn dilyn y profiad.

Ar ôl i Michael gael ei ryddhau, derbyniodd Amnest Rhyngwladol lythyr oddi wrth Sally Sealey, gweithwraig yn y maes gyda'r Bwrdd Ymchwilio Annibynnol yn Johannesburg, yn dweud:

"***Hoffwnfanteisioar ycyflehwniddiolch irwydwaithAmnest Rhyngwladolamyr holllythyraua ddaethigefnogi MichaelMathe. Rwy'ncredubod niferyllythyraua anfonwydgan aelodauAmnest Rhyngwladolwedi helpuisicrhaubod Michaelynderbyn triniaethfeddygol frysa'rffaithiddo gaeleiryddhauar fechnïaethyny diweddarôlpum mis.***

***MaeMichaelyndal ifodangencymorth i'whelpugyda'r trawmaa ddioddefoddyny ddalfa.Rwy'n gwybodbody cannoeddolythyrau wedibodynhwb iddoacwedigwneud iddosylweddoli cymaintobobloedd ynmalioamdano.***

***GofynnoddMichael ynarbennigimi ysgrifennullythyri ddiolchibawba gymeroddranyny GweithreduBrys.*** "

# Cwestiynau ac Atebion

**O'r llu o gwestiynau a dderbyniwn oddi wrth lythyrwyr Amnest Rhyngwladol, mae llond llaw yn codi'n eithaf rheolaidd. Dyma'r atebion i rai ohonynt.**

**Faint o bobl sy'n derbyn taflenni Gweithredu Brys?**

Ym Mhrydain, rydym yn dosbarthu rhwng 150–200 copi o bob taflen Gweithredu Brys. Yn fyd–eang, gallai fod miloedd. Ar gyfartaledd, mae'r taflenni yn creu ymateb byd–eang o tua 5,000 apêl at swyddogion llywodraeth.

**Beth yw'r achosion y gofynnir i mi ddelio â nhw?**

Mae taflenni Gweithredu Brys yn cwmpasu pob rhan o Fandad Amnest Rhyngwladol yn ei gyfanrwydd: mae Amnest Rhyngwladol yn ceisio sicrhau y rhyddheir Carcharorion Cydwybod; yn gweithio i sicrhau achosion teg a buan ar gyfer pob carcharor gwleidyddol a gedwir heb gyhuddiad neu dreial; yn gwrthwynebu'r gosb eithaf a phoenydio neu driniaeth neu gosb greulon, annynol neu ddiraddiol arall i bob carcharor yn ddiwahân.

Rydym yn annog pob un sy'n cymryd rhan yn y rhwydwaith i ymateb i bob apêl a dderbyniant er lles y bobl y mae eu bywydau yn llythrennol yn dibynnu ar yr apêl honno.

**Pa fath o apeliadau y disgwylir i mi ei anfon?**

Mae pob taflen Gweithredu Brys yn argymell eich bod yn anfon apeliadau ar ffurf telecs, telegram, ffacs, llythyr brys neu bost awyr. Os na allwch anfon telecs, telegram neu ffacs, yna anfonwch lythyr yn syth ar ôl derbyn apêl Gweithredu Brys. Yr elfen bwysicaf yn y Gweithredu Brys yw pa mor gyflym y mae'n gweithio. Ni waeth sut apêl sydd gennych, y peth pwysig yw eich bod yn ei hanfon ar unwaith at un neu ragor o'r cyfeiriadau a roddir.

Dylai'r apeliadau fod yn fyr a chwrtais. Dylech bwysleisio nad yw eich pryder am iawnderau dynol yn gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â gwleidyddiaeth plaid. Gallwch gyfeirio at ddarpariaethau perthnasol mewn cyfraith ryngwladol, er enghraifft Datganiad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar Iawnderau Dynol:

Erthygl 3 – "Y mae gan bawb hawl i fywyd, rhyddid a'i ddiogelwch ei hun."

Erthygl 5 – "Ni ddylid poenydio neb, na'i drin na'i gosbi yn greulon, annynol a diraddiol."

Erthygl 9 – "Ni ddylai neb gael ei ddwyn i ddalfa, na'i gaethiwo na'i alltudio yn fympwyol."

**Seren wrth ymyl cyfeiriad**

**Beth yw ystyr y seren ar y daflen?**

Wrth anfon pob taflen Gweithredu Brys, rydym yn rhannu'r swyddogion llywodraeth rhwng y llythyrwyr a ddewisir er mwyn sicrhau bod eich apeliadau yn cael eu dosbarthu'n gyfartal. Ar bob taflen, bydd seren wrth enw un swyddog. Awgrymwn eich bod yn anfon eich apêl at yr unigolyn hwn. Fodd bynnag, awgrym yn unig yw hyn ac wrth gwrs fe gewch anfon llythyrau, telecsau, telegramau neu ffacsiau at gynifer o swyddogion ag y dymunwch.

Dylech sicrhau, fodd bynnag, eich bod yn anfon o leiaf un apêl cyn gynted â phosibl ar ôl derbyn taflen.

Os oes modd, anfonwch gopi o'ch apêl naill ai at gynrychiolydd diplomatig y llywodraeth ym Mhrydain, neu at y bobl a restrir dan "Anfonwch gopïau o'ch apeliadau at:".

**Pa mor aml y bydd taflenni'n cyrraedd?**

**Pan ymunais â'r rhwydwaith Gweithredu Brys, gofynnais am un daflen bob mis. Ond, rwy feisoes wedi derbyn dwy y mis hwn.**

Ni allwn warantu y byddwch yn derbyn un daflen bob mis. Wrth ymuno, os gofynnwch am 12 taflen Gweithredu Brys y flwyddyn, nid yw hyn yn golygu '1 bob mis'; mewn gwirionedd mae'n golygu 'dim mwy na 12 taflen Gweithredu Brys mewn cyfnod o ddeuddeng mis'. Y rheswm am hyn yw ein bod yn aml yn dosbarthu taflenni Gwybodaeth Bellach gyda gwybodaeth ychwanegol am apêl benodol ac weithiau'n gofyn am weithredu pellach. Anfonir taflenni Gwybodaeth Bellach atoch yn awtomatig, ni waeth pryd y derbynioch eich taflen ddiwethaf. Weithiau, pan fydd sefyllfa yn newid yn gyflym, bydd taflenni Gweithredu Brys yn cael eu cyhoeddi'n gyson un ar ôl y llall. Gall hyn olygu y bydd oedi cyn i chi dderbyn eich taflen Gweithredu Brys 'newydd' gan y bydd cronfa ddata'r cyfrifiadur yn newid y dyddiad y dylid anfon eich taflen Gweithredu Brys nesaf atoch er mwyn sicrhau na fyddwn yn anfon mwy na deuddeg atoch mewn blwyddyn.

**Methu anfon apêl dros y facs**

**Er stridiau, rwy'n ceisio anfon apêl dros y ffacs at rif ffacs sydd ar y daflen Gweithredu Brys. Chefais i ddim llwyddiant, a yw'r rhif yn anghywir?**

Mae dau ateb posibl i'r cwestiwn:
1. Ydi, mae'n bosibl bod y rhif ffacs yn anghywir. Gallai fod yn gamgymeriad neu gallai'r rhif fod wedi'i newid yn ddiweddar. Os felly, byddwn yn ceisio dod o hyd i rif arall i'w gynnwys mewn taflenni yn y dyfodol.
2. Yn amlach na pheidio, fodd bynnag, yr ateb yw 'Na, mae'r rhif ffacs yn gywir.' Mae'n debyg bod y broblem yn codi oherwydd bod y peiriant ffacs wedi cael ei ddiffodd, gan fod y swyddog wedi cael llond bol ar dderbyn apeliadau Amnest Rhyngwladol, neu wrth gwrs gallai'r peiriant ffacs fod yn brysur drwy'r amser oherwydd bod cefnogwyr Amnest Rhyngwladol yn ffacsio eu hapêl.
**Y cyfan y gallwn ei awgrymu yw eich bod yn dal ati a/neu anfon llythyr brys.**

**Gweithredu Brys Cyfyngedig**

**Rydw i wedi derbyn taflen Gweithredu Brys sy'n dweud wrthyf am "anfon un apêl yn unig mewn ymateb i'r daflen Gweithredu Brys hon". Pam?**

Weithiau bydd y Swyddfa Ganolog Ryngwladol yn rhyddhau taflen Gweithredu Brys sy'n gofyn am nifer benodol o apeliadau oddi wrth bob Adran o Amnest Rhyngwladol. Y rheswm fel arfer yw fod y tîm ymchwil perthnasol yn teimlo y bydd ymateb cyfyngedig yn cael mwy o effaith. Mae'n bwysig iawn, felly, eich bod yn cydymffurfio â'r cais.

**Anfon copïau o'ch apêl**

**Beth yw diben anfon copïau o'r apêl at swyddogion neu gyrff eraill?**

Weithiau mae copïau o apeliadau yn gallu bod bron cyn bwysiced â'r apeliadau eu hunain. Os byddwch yn eu hanfon at y wasg, at gyrff iawnderau dynol neu at gonffederasiwn undeb llafur yn y wlad dan sylw, mae'r copïau yn gallu gwneud y cyhoedd yn fwy ymwybodol o droseddau yn erbyn iawnderau dynol yn eu gwlad eu hunain. Mae'n bwysig hefyd anfon copi o'ch apêl at y cynrychiolydd diplomatig ym Mhrydain ac i'r perwyl hwn rhoddir cyfeiriad y Llysgenhadaeth ar bob taflen Gweithredu Brys. Dyma ffordd bwysig arall o fynegi pryderon Amnest Rhyngwladol wrth yr awdurdod llywodraethol priodol.

Nid ydym yn disgwyl i chi anfon copïau o'ch apeliadau at bob cyfeiriad ar y rhestr "Anfonwch gopïau at:". Yn hytrach dewiswch un (neu ragor). Fel hyn, y gobaith yw y bydd pob un ar y rhestr yn derbyn rhywfaint o lythyrau.

# Cwestiynau ac Atebion

**Achosion o'r gosb eithaf**

**Rwyf wedi derbyn taflen Gweithredu Brys sy'n gofyn i mi apelio ar ran carcharor wedi'i ddedfrydu i farwolaeth yn Unol Daleithiau America. Nid wyf yn gwrthwynebu'r gosb eithaf ar gyfer llofruddwyr a gafwyd yn euog. A oes modd i chi beidio ag anfon rhagor o daflenni Gweithredu Brys ataf yn ymwneud â'r gosb eithaf?**

Na. Mae taflenni Gweithredu Brys yn cwmpasu Mandad Amnest Rhyngwladol yn ei gyfanrwydd a chânt eu defnyddio i ymgyrchu yn erbyn achosion o'r gosb eithaf sy'n galw am ymateb cyflym iawn.

Cyhoeddodd Amnest Rhyngwladol ddatganiadau yn condemnio'r defnydd o'r gosb eithaf mor gynnar â 1968, ac ym 1974 mabwysiadwyd geiriau i wrthwynebu'r gosb eithaf yn ei Fandad. Mae Amnest Rhyngwladol o'r farn fod y gosb eithaf yn drosedd yn erbyn yr hawl fwyaf sylfaenol i gael byw, fel a nodir yn Erthygl 3 y Datganiad Cyffredinol ar Iawnderau Dynol.

Dan y cynllun Gweithredu Brys, felly, nid oes opsiwn i bobl ddewis peidio â gweithio ar achosion penodol.

**Beth ddylwn ei wneud os byddaf yn newid cyfeiriad/mynd ar wyliau?**

Cofiwch ei bod yn bwysig rhoi gwybod i'r tîm Gweithredu Brys os bydd yr wybodaeth a roesoch i ni yn wreiddiol yn newid. Mae taflenni gwyliau ar dudalen 29 a ffurflenni newid cyfeiriad ar dudalen 27.

**Gwyliau/ absenoldeb**

**Beth amser yn ôl, cyfrannais swm o arian ar gyfer y cynllun Rhoddwyr Ernes. Yn fuan wedyn derbyniais gopi o delecs a anfonwyd ar fy rhan ond ni chlywais unrhyw beth ers hynny. A gafodd fy arian ei ddefnyddio i gyd ynteu a aeth fy nghyfraniad ar goll?**

**Cyfraniadau ernes**

Na, nid yw eich arian wedi'i ddefnyddio i gyd, ac nid ydym wedi'i golli chwaith. Ar hyn o bryd mae dros 2,200 yn perthyn i'r cynllun Rhoddwyr Ernes a byddwn yn defnyddio, ar gyfartaledd, chwe chyfraniad ar gyfer pob taflen Gweithredu Brys. Mae hyn yn golygu y bydd eich cyfraniad yn cael ei ddefnyddio eto ymhen rhyw chwe mis.

**Pryd y dylwn adnewyddu fy nghyfraniad i'r cynllun Rhoddwyr Ernes?**

Ddeuddeng mis ar ôl i ni ddefnyddio rhan o'ch cyfraniad, byddwn yn anfon gwahoddiad i chi adnewyddu eich Ernes. O hynny ymlaen, byddwn yn anfon ffurflen adnewyddu atoch bob blwyddyn yn yr un mis. Os penderfynwch beidio ag adnewyddu eich Ernes am ddwy flynedd yn olynol, ni fyddwn yn anfon ffurflen adnewyddu ar ôl hynny.

**Gwybodaeth newydd am daflenni Gweithredu Brys**

**A fyddwn ni'n cael gwybodaeth am yr achosion rydym wedi ymateb iddynt?**

Os byddwn yn derbyn gwybodaeth newydd am achos Gweithredu Brys a anfonwyd atoch, byddwn yn awtomatig yn anfon taflen Gwybodaeth Bellach atoch, gan y byddwn yn tybio eich bod yn awyddus i gael gwybodaeth am unrhyw newidiadau yn yr achosion y buoch yn ymateb iddynt. Weithiau bydd hyn yn cynnwys newyddion am ryddhau carcharor, diwedd ar garcharu heb gysylltiad, newid dedfryd marwolaeth, darparu gofal meddygol angenrheidiol, neu welliant arall yn amodau carcharor. Ar gyfartaledd, bydd Amnest Rhyngwladol yn clywed am welliant mewn dros un rhan o dair o'r achosion lle ceir taflenni Gweithredu Brys bob blwyddyn. Os bydd gwelliant o'r fath, ni fydd y taflenni Gwybodaeth Bellach fel arfer yn gofyn i chi anfon rhagor o apeliadau at yr awdurdodau llywodraeth dan sylw.

Fodd bynnag, weithiau mae'n bosibl na fydd Amnest Rhyngwladol yn derbyn unrhyw newyddion pellach am garcharor penodol neu grŵp o unigolion lle bu taflen Gweithredu Brys ar eu rhan. Felly bydd y pryder yn parhau am eu sefyllfa, yr amodau lle cânt eu dal, diffyg ymchwiliad addas i'w "diflaniad" ac ati. Mewn achosion o'r fath, mae'n bosibl y cyhoeddir taflenni Gwybodaeth Bellach yn aml yn gofyn i chi anfon apeliadau ychwanegol at yr awdurdodau llywodraeth perthnasol. Rydym yn gofyn bob amser i chi ddilyn y cyfarwyddiadau gweithredu pellach sydd ar y daflen. Byddwn yn gwneud nodyn o'r gweithredu hwn hefyd fel na fyddwch yn derbyn tomen o daflenni Gweithredu Brys newydd na gormodedd o daflenni Gwybodaeth Bellach.

### Beth ddylwn i ei wneud os derbyniaf ateb?

**Atebion gan swyddogion llywodraeth**

Ar adegau, mae'n ddigon hawdd credu bod y llythyrau a ysgrifennwch yn cael eu hanwybyddu'n llwyr, gan mai tawelwch llethol sydd i'w gael y rhan fwyaf o'r amser; neu gallech ddod i deimlo nad yw tomen o lythyrau yn effeithio dim ar lywodraethau. Ond, mae'r dystiolaeth sydd gennym yn gwrthddweud hyn; ledled y byd mae pobl sydd wedi anfon apêl Gweithredu Brys wedi derbyn llythyrau oddi wrth lywodraethau mewn ymateb i'w hapeliadau.

Weithiau bydd y llythyrau yn gwadu bod ganddynt unrhyw gysylltiad â'r achos, gan ddatgan bod hanes y llywodraeth o ran iawnderau dynol yn arbennig o dda, neu byddant yn cyhuddo elfennau anllywodraethol eraill o fewn eu gwlad, ond ni cheir llawer o sylwedd yn y llythyrau. Fodd bynnag, hyd yn oed os nad yw'r atebion yn bwysig ynddynt eu hunain, mae'n dal yn arwydd bod y llywodraeth yn cymryd digon o sylw o bwysau Amnest arnynt nes trafferthu i ateb.

Os derbyniwch ateb oddi wrth awdurdod llywodraeth neu eu cynrychiolydd diplomatig ym Mhrydain, a wnewch chi anfon copi at yr adran Gweithredu Brys yn Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol. Byddwn yn anfon yr holl atebion a dderbyniwn at Swyddfa Ganolog Ryngwladol Amnest Rhyngwladol yn Llundain. Mae'r Swyddfa Ganolog yn arolygu'r holl achosion Gweithredu Brys, yr atebion gan lywodraethau ac ati, ac, os yw'n briodol, byddant yn anfon cylchlythyr – fel arfer ar ffurf taflen Gwybodaeth Bellach – yn rhoi gwybod, er enghraifft, a oes angen gweithredu eto. Cofiwch, os yw'n briodol, y gallai fod yn fanteisiol i chi ddiolch i'r swyddog a atebodd a gofyn am unrhyw wybodaeth newydd am yr achos yn y dyfodol.

Cofiwch beidio â chadw'r holl atebion a dderbyniwch a'u hanfon atom gyda'i gilydd: Efallai mai chi fydd yr unig un i dderbyn ateb ac efallai y bydd y Swyddfa Ganolog yn awyddus i anfon rhagor o wybodaeth i'n haelodau cyn gynted â phosibl.

**Dalier sylw** : Cofiwch roi cyfeirnod y daflen Gweithredu Brys ar yr ateb a dderbyniwch a pheidiwch ag anghofio cynnwys eich enw a'ch cyfeiriad.

### Allwch chi ddarparu cyfieithiad o'r ateb a dderbyniais?

**Cyfieithu atebion**

Gallwn. Mae llawer o aelodau Amnest Rhyngwladol wedi gwirfoddoli i gyfieithu atebion llywodraethau i Saesneg. Cofiwch fod raid i chi ofyn am gyfieithiad pan anfonwch ateb y llywodraeth atom – ni fyddwn yn darparu cyfieithiadau yn awtomatig.

### Beth os bydd gennyf gwestiwn sydd heb ei ateb yma?

Peidiwch â phetruso rhag cysylltu â'r tîm Gweithredu Brys yn Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol. Yn y swyddfa, prin yw'r amser ar gyfer ateb llythyrau fel arfer – felly os oes modd os gwelwch yn dda a wnewch chi ffonio'r swyddfa.

# Pethau i'w cofio

Mae'n bwysig anfon o leiaf un apêl cyn gynted â phosibl ar ôl derbyn taflen Gweithredu Brys.

**Y seren**

Er mwyn sicrhau bod apeliadau yn cael eu hanfon at bob swyddog llywodraeth ar daflen Gweithredu Brys, mae cyfeiriadau'r swyddogion yn cael eu rhannu rhwng y bobl sy'n llythyru. Rydym yn rhoi seren wrth enw gwahanol swyddogion, felly byddwch yn gwybod at bwy y dylech anfon eich apêl. Os byddwch yn anfon un apêl yn unig, dylech ei hanfon at y swyddog a nodir gyda'r seren. Awgrym yn unig yw hyn, fodd bynnag, ac nid yw'n orfodol. Gallwch anfon eich apeliadau at fwy nag un unigolyn os dymunwch.

Os oes modd, dylech anfon copi o'ch apêl at y cynrychiolydd diplomatig perthnasol ym Mhrydain (rhoddir cyfeiriad y Llysgenhadaeth berthnasol ym Mhrydain ar bob taflen Gweithredu Brys), a/neu at y sawl a restrir dan "*ANFONWCH GOPÏAU O'CH APELIADAU AT:*".

**Gweithredu Brys Cyfyngedig**

Weithiau bydd y Swyddfa Ganolog Ryngwladol yn cyhoeddi taflen Gweithredu Brys sy'n gofyn i ni drefnu nifer benodol o apeliadau, e.e. Deg Apêl ar gyfer pob Adran. Gall hyn ddigwydd os bydd y tîm ymchwil perthnasol yn teimlo mai ymateb cyfyngedig fel hyn fydd yn cael yr effaith orau. Ar daflenni Gweithredu Brys o'r fath fe welwch y neges: '*ANFONWCH UN APÊL YN UNIG AR GYFER Y DAFLEN GWEITHREDU BRYS HON*'. **Mae'n bwysig iawn eich bod yn dilyn y canllawiau hyn**.

**Gwybodaeth Bellach**

Os daw rhagor o wybodaeth am daflen Gweithredu Brys a gawsoch, byddwn yn anfon taflen arall atoch yn awtomatig. Efallai y bydd y daflen hon yn gofyn i chi apelio eto, ond taflen er gwybodaeth fydd hi fel arfer. Byddwn yn anfon yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw achosion y gofynnwyd i chi ymateb iddynt, hyd yn oed os ydych ar eich gwyliau, neu'n methu gweithredu ac ati.

Fodd bynnag, er mai un o swyddogaethau taflen Gwybodaeth Bellach yw rhoi gwybod i chi am ddatblygiadau mewn achos, os bydd taflen Gwybodaeth Bellach yn gofyn i chi weithredu eto rydym yn eich annog i wneud hynny. Byddwn yn cymryd y taflenni ychwanegol hyn i ystyriaeth rhag i chi dderbyn gormod o daflenni apêl newydd.

**Newid Cyfeiriad**

Mae taflenni Gweithredu Brys yn cael eu hanfon atoch mewn amlenni wedi'u hargraffu ymlaen llaw gyda nodyn yn eich atgoffa i roi gwybod i ni os byddwch yn newid cyfeiriad. Rhowch wybod i ni a/neu Gydlynydd eich Grŵp lleol ychydig cyn symud tŷ – yr wythnos cynt os oes modd – a byddwn yn newid eich manylion ar y cyfrifiadur. Mae ffurflenni newid cyfeiriad ar dudalen 29.

**Dalier sylw**: Os ydych yn ysgrifennu at swyddfa Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol i newid eich cyfeiriad, a wnewch chi ddefnyddio un o'r ffurflenni ar dudalen 29 neu rhowch label oddi ar un o'ch amlenni Gweithredu Brys gyda'ch llythyr.

**Gwyliau**

Rhowch wybod i ni am unrhyw gyfnod pan na fyddwch yn gallu ymateb i daflenni Gweithredu Brys – mae'r ffurflenni gwyliau ar dudalen 27. Gyda'r wybodaeth hon gallwn sicrhau na fydd unrhyw achosion newydd yn cael eu hanfon atoch bryd hynny.

Ffurflenni gwyliau/absenoldeb

At: Cydlynydd Gweithredu Brys
Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol
99–119 Rosebery Avenue, Llundain EC1R 4RE

Annwyl Gydlynydd Gweithredu Brys

Ni fyddaf yn gallu ymateb i apeliadau Gweithredu Brys Ieuenctid ar y dyddiadau canlynol:

ENW ______________________________
(Defnyddiwch eich enw llawn a phrif lythrennau)

CYFEIRIAD ______________________________

______________________________

Rhif Aelodaeth Gweithredu Brys: ______________________________

At: Cydlynydd Gweithredu Brys
Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol
99–119 Rosebery Avenue, Llundain EC1R 4RE

Annwyl Gydlynydd Gweithredu Brys

Ni fyddaf yn gallu ymateb i apeliadau Gweithredu Brys Ieuenctid ar y dyddiadau canlynol:

ENW ______________________________
(Defnyddiwch eich enw llawn a phrif lythrennau)

CYFEIRIAD ______________________________

______________________________

Rhif Aelodaeth Gweithredu Brys: ______________________________

At: Cydlynydd Gweithredu Brys
Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol
99–119 Rosebery Avenue, Llundain EC1R 4RE

Annwyl Gydlynydd Gweithredu Brys

Ni fyddaf yn gallu ymateb i apeliadau Gweithredu Brys Ieuenctid ar y dyddiadau canlynol:

ENW ______________________________
(Defnyddiwch eich enw llawn a phrif lythrennau)

CYFEIRIAD ______________________________

______________________________

Rhif Aelodaeth Gweithredu Brys: ______________________________

# Ffurflenni newid cyfeiriad

At: Cydlynydd Gweithredu Brys
Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol
99–119 Rosebery Avenue, Llundain EC1R 4RE

Annwyl Gydlynydd Gweithredu Brys

Rwy'n symud i'r cyfeiriad canlynol ar ____/____/____:

ENW ______________________________

(Defnyddiwch eich enw llawn a phrif lythrennau)

LLINELL GYNTAF YR HEN GYFEIRIAD ______________________________

CYFEIRIAD NEWYDD ______________________________

______________________________

______________________________

Rhif Aelodaeth Gweithredu Brys ______________________________

---

At: Cydlynydd Gweithredu Brys
Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol
99–119 Rosebery Avenue, Llundain EC1R 4RE

Annwyl Gydlynydd Gweithredu Brys

Rwy'n symud i'r cyfeiriad canlynol ar ____/____/____:

ENW ______________________________

(Defnyddiwch eich enw llawn a phrif lythrennau)

LLINELL GYNTAF YR HEN GYFEIRIAD ______________________________

CYFEIRIAD NEWYDD ______________________________

______________________________

______________________________

Rhif Aelodaeth Gweithredu Brys ______________________________

---

At: Cydlynydd Gweithredu Brys
Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol
99–119 Rosebery Avenue, Llundain EC1R 4RE

Annwyl Gydlynydd Gweithredu Brys

Rwy'n symud i'r cyfeiriad canlynol ar ____/____/____:

ENW ______________________________

(Defnyddiwch eich enw llawn a phrif lythrennau)

LLINELL GYNTAF YR HEN GYFEIRIAD ______________________________

CYFEIRIAD NEWYDD ______________________________

______________________________

______________________________

Rhif Aelodaeth Gweithredu Brys ______________________________

Ffurflenni newid aelodaeth

At: Cydlynydd Gweithredu Brys
Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol
99–119 Rosebery Avenue, Llundain EC1R 4RE

Annwyl Gydlynydd Gweithredu Brys

Hoffwn dderbyn taflenni Gweithredu Brys drwy'r post electronig o hyn allan. Fy nghyfeiriad e–bost yw: ____________________@____________________

(Ysgrifennwch eich cyfeiriad e–bost yn eglur)

ENW ____________________

(Defnyddiwch eich enw llawn a phrif lythrennau)

CYFEIRIAD ____________________

____________________

____________________

Rhif Aelodaeth Gweithredu Brys: ____________________

At: Cydlynydd Gweithredu Brys
Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol
99–119 Rosebery Avenue, Llundain EC1R 4RE

Annwyl Gydlynydd Gweithredu Brys

Hoffwn dderbyn taflenni Gweithredu Brys dros y ffacs o hyn allan. Fy rhif ffacs yw:

____________________

(Ysgrifennwch eich rhif ffôn yn llawn)

ENW ____________________

(Defnyddiwch eich enw llawn a phrif lythrennau)

CYFEIRIAD ____________________

____________________

____________________

Rhif Aelodaeth Gweithredu Brys: ____________________

At: Cydlynydd Gweithredu Brys
Amnest Rhyngwladol y Deyrnas Gyfunol
99–119 Rosebery Avenue, Llundain EC1R 4RE

Annwyl Gydlynydd Gweithredu Brys

Hoffwn ymuno â chronfa Rhoddwyr Ernes Gweithredu Brys. Amgaeaf siec am £______ (yn daladwy i Amnest Rhyngwladol). Noder mai £12 yw'r swm lleiaf y gallwch ei gyfrannu.

ENW ____________________

(Defnyddiwch eich enw llawn a phrif lythrennau)

CYFEIRIAD ____________________

____________________

____________________

Rhif Aelodaeth Gweithredu Brys: ____________________